Bargen Ddinesig
BAE ABERTAWE
SWANSEA BAY
City Deal

# Adroddiad Blynyddol
# y Portffolio
















@SBCityDeal
BDBA@sirgar.gov.uk
bargenddinesigbaeabertawe.cymru

**2024/25**

# Cynnwys


Crynodeb Gweithredol .......... 3

Manteision .......... 5

Y wybodaeth ddiweddaraf am brosiectau .......... 7

- Seilwaith Digidol .......... 7
- Cartrefi yn Orsafoedd Pŵer .......... 12
- Sgiliau a Thalentau .......... 15
- Campysau .......... 22
- Ardal Forol Doc Penfro (AFDP) .......... 25
- Pentre Awel .......... 29
- Cefnogi Arloesedd a Thwf Carbon Isel .......... 32
- Ardal Ddigidol Dinas Abertawe a’r Glannau .......... 36
- Yr Egin .......... 41

Stori Martha .......... 45

Tenantiaid Presennol .......... 46

Strwythur Llywodraethu .......... 49

Tîm Swyddfa Rheoli'r Portffolio (PoMO) .......... 49

Diweddariad Ariannol .......... 50

Proffil Rhagolwg Buddsoddi Blynyddol .......... 51

Ymgysylltu â Busnes .......... 52

Marchnata a Chyfathrebu .......... 55


Digwyddiadau .......... 59

Sicrwydd ac Archwilio .......... 60

Risgiau a Materion Portffolio .......... 61

Gwersi a Ddysgwyd .......... 63

I ddarganfod mwy a chwrdd â'r tîm .......... 64

# Crynodeb Gweithredol


Croeso i Adroddiad Blynyddol Bargen Ddinesig Bae Abertawe 2024/25. Wrth i ni gyrraedd hanner ffordd drwy gyfnod y Fargen Ddinesig, mae cynnydd cyffrous yn dod yn fwy gweladwy ar draws ein rhanbarth. Yn benodol, mae seilwaith sylweddol wedi'i gaffael, ei adeiladu a'i weithredu yn ystod y 12 mis diwethaf. Drwy roi cartref i denantiaid, hwyluso cydweithio, a helpu busnesau i sefydlu a thyfu, mae'r Fargen Ddinesig yn helpu i drawsnewid De-orllewin Cymru yn lle o gyfleoedd. Yma gall pobl fyw a gweithio, a gall busnesau ffynnu wrth i swyddi â chyflogau da a sgiliau newydd gael eu creu mewn amgylchedd busnes o'r radd flaenaf.

Mae'r Fargen Ddinesig yn rhoi cyfle unigryw i Dde-orllewin Cymru drwy fuddsoddiad portffolio gwerth £1.3 biliwn ar draws naw prif raglen a phrosiect yn Sir Gaerfyrddin, Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro ac Abertawe.

Yr uchelgais yw darparu manteision allweddol i'r rhanbarth dros gyfnod o 15 mlynedd, gan gynnwys:

- Creu dros **9,000** o swyddi mewn meysydd sy'n cynnwys ynni, gweithgynhyrchu, digidol, iechyd a llesiant.
- Creu effaith economaidd gwerth **£1.8-2.4 billion**.
- Uwchsgilio **14,000** o bobl drwy **2,200** o gyfleoedd hyfforddi a thros **3,000** o brentisiaethau newydd.

Rhoi manylion y cynnydd yn yr adroddiad blynyddol hwn, sy'n cynnwys gwybodaeth allweddol, gweithgareddau, cyflawniadau, ac astudiaethau achos 'Ffocws ar'.




Prif randdeiliaid Bargen Ddinesig Bae Abertawe yw:

Cyngor Abertawe Swansea Council · Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council · Neath Port Talbot County Borough / Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot · Cyngor Sir Penfro Pembrokeshire County Council · Llywodraeth y DU Cymru UK Government Wales · Llywodraeth Cymru Welsh Government

Swansea University Prifysgol Abertawe · Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant University of Wales Trinity Saint David · GIG Cymru NHS Wales Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda University Health Board · GIG Cymru NHS Wales Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe Swansea Bay University Health Board

Mae'r prosiectau a'r rhaglenni o fewn Portffolio'r Fargen Ddinesig yn cyd-fynd â thair thema:

**Cyflymu'r Economi**

**£372.1m**
Buddsoddiad

Gwerth Gros ychwanegol o
**£1.08bn**

**1,708**
o Swyddi Newydd

**Darparu'r gofod, y sgiliau a'r cysylltedd i yrru'r economi ranbarthol ymlaen i greu cyfleoedd newydd i'n busnesau a'n cymunedau ffynnu.**

**Gwyddor bywyd a llesiant**

**£353.8m**
Buddsoddiad

Gwerth Gros ychwanegol o
**£617m**

**2,973**
o Swyddi Newydd

**Darparu datblygiadau a fydd yn cyfuno arloesedd, ymchwil a chyfleusterau dysgu sydd ar flaen y gad â busnesau newydd ac o fewn meysydd gwyddorau bywyd, iechyd, llesiant a chwaraeon.**

**Ynni, a Gweithgynhyrchu Clyfar**

**£648.1m**
Buddsoddiad

Gwerth Gros ychwanegol o
**£687m**

**5,005**
o Swyddi Newydd

**Gosod y rhanbarth ar flaen y gad o ran arloesedd ynni a gweithgynhyrchu fel rhan o'r ymgyrch tuag at economi carbon isel a chryfhau'r sylfaen weithgynhyrchu bresennol.**

"Wrth i ni basio hanner ffordd drwy gyfnod y Fargen Ddinesig, mae'n galonogol myfyrio ar waith caled ein partneriaid yn cyflawni llawer o'n prosiectau'n llwyddiannus, a dathlu hynny, yn enwedig o ystyried yr hinsawdd economaidd anodd a brofwyd ar ddechrau'r cyfnod.

Wrth edrych yn ôl dros y 12 mis diwethaf, mae'r cynnydd wedi bod yn wych ar draws y portffolio cyfan. Rydym wedi dathlu agoriad prosiectau allweddol fel y Matrics Arloesi a Seilwaith Doc Penfro, ac mae Pentre Awel a 71/72 Ffordd y Brenin hefyd wedi cymryd camau breision ymlaen ac mae disgwyl iddynt agor yn fuan.

Mae cymaint mwy i ddod dros yr ychydig flynyddoedd nesaf, wrth i rai prosiectau gael eu sefydlu a'r prosiectau adeiladu sy'n weddill gael eu cyflawni a dod yn weithredol.

Gan greu dros 9,000 o swyddi a chyfrannu effaith economaidd gwerth hyd at £2.4 biliwn i Dde-orllewin Cymru, mae'r Fargen Ddinesig yn gatalydd i fuddsoddiad pellach. Ynghyd â llawer o fentrau lleol a rhanbarthol eraill, bydd yn cryfhau'r rhanbarth i'n trigolion ac yn helpu busnesau i ffynnu."

**Y Cynghorydd Rob Stewart, Arweinydd Cyngor Abertawe a Chadeirydd Cyd-bwyllgor Bargen Ddinesig Bae Abertawe**



# Manteision

Mae'r Fargen Ddinesig wedi gwneud cynnydd sylweddol yn ystod 2024/25 tuag at ei thargedau o ran buddion wrth i'w phrosiectau ragori wrth gyflawni. Bydd y targedau hyn yn parhau i gyflymu dros weddill oes y portffolio. Mae rhai o'r prif gyflawniadau hyd yma yn cynnwys:

- **£536m** o fuddsoddiad.
- **£354m** o fuddsoddiad yn 2024/25.
- **£132.78m** o fuddsoddiad wedi'i sicrhau gan y sector preifat.
- **890+** o swyddi cyfwerth ag amser llawn wedi'u creu*
- **230 FTE** o gyfleoedd prentisiaeth cyfwerth ag amser llawn wedi'u creu neu eu parhau.
- **79,500m$^2$** o arwynebedd llawr wedi'i gwblhau.
- **35,246** o sgiliau ychwanegol a **119** o fframweithiau cwrs newydd wedi'u cyflwyno drwy'r rhaglen Sgiliau a Thalentau.
- **£44.34m** o gyllid sector preifat wedi'i sicrhau drwy'r rhaglen Seilwaith Digidol a adroddwyd yn 2024/25.
- Mae **1,078** o'r **10,300** o gartrefi fel Gorsafoedd Pŵer wedi'u hadeiladu sy'n fuddsoddiad o **£83.6m**. Mae **£17.4m** yn rhagor o fuddsoddiad o'r sector cyhoeddus a phreifat hefyd wedi'i gyflawni.
- **250+** o gontractau wedi'u dyfarnu i gwmnïau yng Nghymru gwerth dros **£113m.**
- **6** prosiect wedi'u cwblhau, ar y gweill ac yn cael eu monitro, gwerth **£210m.**
- **19** prosiect ar y gweill neu wedi'u cwblhau, gwerth **£761m.**
- **14** prosiect yn y broses cyn cyflawni, gwerth **£403m.**

*Mae swyddi pellach wedi'u creu, a byddant yn cael eu cadarnhau gyda 12–24 mis o oedi ar ôl cwblhau







Mae 2024/25 wedi nodi blwyddyn hollbwysig i Fargen Ddinesig Bae Abertawe. Wrth i ni symud i ail hanner y gwaith o gyflawni'r portffolio, rydym yn gweld y weledigaeth yn cael ei gwireddu – nid yn unig o ran seilwaith ffisegol, ond yn yr effaith drawsnewidiol y mae'n ei chael ar ein cymunedau, ein heconomi, a'n dyfodol. Gyda dros £536 miliwn eisoes wedi'i fuddsoddi, rydym yn cyflawni newid sy'n weladwy ac yn fesuradwy ledled De-orllewin Cymru.

O ddatblygiad parhaus Pentre Awel a chynnydd Prosiect Ardal Forol Doc Penfro i effaith gynyddol Arena Abertawe, yr Egin, a Chanolfan Dechnoleg y Bae, mae'r Fargen Ddinesig yn sbarduno adfywio ac arloesi ar raddfa fawr. Nid yn unig y mae'r prosiectau hyn yn cefnogi sectorau presennol ond maent hefyd yn denu buddsoddiad newydd ac yn agor drysau i ddiwydiannau'r dyfodol.

Yr hyn sy'n arbennig o gyffrous yw'r egni cydweithredol y mae'r Fargen yn ei ddatgloi. Mae partneriaethau ar draws y byd academaidd, y byd busnes a'r sector cyhoeddus yn dyfnhau – gan gryfhau ein gallu o ran arloesedd, datblygiad talent a thwf cynhwysol.

Wrth edrych ymlaen, bydd y prosiectau rhanbarthol – gan gynnwys Cartrefi yn Orsafoedd Pŵer, Seilwaith Digidol, a Sgiliau a Thalentau – yn hanfodol wrth sicrhau nad oes unrhyw gymuned yn cael ei gadael ar ôl. Gyda'n gilydd, rydym yn gosod y sylfaen ar gyfer rhanbarth mwy craff, mwy gwyrdd a mwy cysylltiedig.

Mae Bargen Ddinesig Bae Abertawe yn fwy na phortffolio o brosiectau – mae'n gatalydd ar gyfer oes newydd o gyfleoedd i Dde-orllewin Cymru. A dim ond newydd ddechrau yr ydyn ni.

**Wendy Walters, Prif Weithredwr Cyngor Sir Caerfyrddin a Phrif Berchennog Cyfrifol Bargen Ddinesig Bae Abertawe**

# Y wybodaeth ddiweddaraf am brosiectau

## Seilwaith Digidol

Drwy dair ffrwd waith, mae'r rhaglen hon yn mynd i'r afael â chysylltedd gwael mewn lleoliadau gwledig, yn cefnogi cyflwyno 4G a 5G i yrru mabwysiadu technolegau sy'n dod i'r amlwg, ac yn darparu cysylltedd ffeibr llawn i safleoedd strategol yn y sector cyhoeddus.

**Dysgwch fwy am Seilwaith Digidol.**

Sganiwch os gwelwch yn dda



| | |
|---|---|
| **£141.9m** | Buddsoddiad |
| **£25m** | Y Fargen Ddinesig |
| **£19.9m** | Sector Cyhoeddus |
| **£97m** | Sector Preifat |

**Cyflymu'r Economi**

Bydd y prosiect rhanbarthol hwn yn:

- **10+** Prosiect Band Eang Cymunedol
- **200+** o Safleoedd Sector Cyhoeddus wedi'u huwchraddio i ffeibr llawn
- **250+** o byrth Rhyngrwyd Pethau wedi'u defnyddio
- **£318.8m** cyfraniad at GYC rhanbarthol

Cyngor Abertawe Swansea Council

Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council

Neath Port Talbot County Borough • Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot


Cyngor Sir Penfro Pembrokeshire County Council

# Cerrig milltir a chyflawniadau allweddol

- Mae ffrwd waith **Lleoedd Cysylltiedig** yn ysgogi buddsoddiad ar draws parthau twf economaidd y rhanbarth a bydd yn cysylltu sawl safle strategol allweddol, gan gefnogi agendâu trawsnewid digidol ein partneriaid rhanbarthol yn y sector cyhoeddus ac yn ysgogi mewnfuddsoddiad ychwanegol ar draws y rhanbarth. Mae'r cynnydd a wnaed yn cynnwys y canlynol:
  - 69 o safleoedd sector cyhoeddus yn cael eu rhwydweithiau copr wedi'u huwchraddio i rwydweithiau ffeibr llawn – wedi'u cyflenwi gan Cydgasglu Band Eang y Sector Cyhoeddus BT.
    - 54 o safleoedd wedi'u cwblhau a'u mudo'n llawn, gan elwa'n weithredol o gysylltedd gwell.
    - 5 safle wedi'u cwblhau, yn aros i fudo'n derfynol.
    - 10 safle lle mae adeiladu'n mynd rhagddo.
    - £1,050,000 o gyllid y Gronfa Band Eang Leol yn cael ei ddefnyddio'n llawn ar gyfer gwaith a wneir hyd at 31 Mawrth 2024.
  - Ffeibr Tywyll yn y Dwyrain – adeiladu rhwydwaith ffeibr tywyll pwrpasol ar draws Llanelli, Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe i ddiwallu anghenion digidol cynyddol partneriaid – wedi'i gyflenwi gan Virgin Media O2.
    - 19 o gysylltiadau wedi'u cwblhau a'u trosglwyddo i bartneriaid.
    - 22 o gysylltiadau wedi cwblhau'r holl waith dylunio a gwaith tirfesur, ac maent ar wahanol gamau o'r gwaith adeiladu.
    - 1 cysylltiad ychwanegol ar y cam dylunio.
    - Mae cylch Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant ar draws wyth o'u safleoedd yng nghanol dinas Abertawe wedi'i gysylltu'n llawn.
- Mae'r ffrwd waith **'Gwledig'** yn mynd i'r afael â her pontio'r bwlch mewn cysylltedd, sy'n cael ei chydnabod yn eang, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig lle gall costau adeiladu rhwydweithiau a all drosglwyddo data ar gyfradd gigadid fod yn ormodol.
  - Prosiect Mewnlenwi Gwell Band Eang – Caeodd y tendr ar gyfer cyflwyno cais ganol mis Mawrth a derbyniwyd tri chais.
  - Prosiect Gigadid – Mae sawl cynllun talebau ar waith ledled y rhanbarth. Caewyd y cynlluniau i geisiadau newydd tra bod y prosiect yn cael ei gwblhau ar gyfer pob trefniant yn ôl y gofyn.
  - Allwedd Band Eang Cymru Llywodraeth Cymru – Roedd grant o £400 neu £800 ar gael tuag at gostau gosod cysylltiadau band eang gwell, a ddefnyddiwyd yn helaeth yn y rhanbarth ar gyfer technoleg amgen fel 4G a lloeren.



- Mae ffrwd waith **Di-wifr y Genhedlaeth Nesaf** yn hwyluso cyflwyno 4G a 5G ar draws y rhanbarth.
  - Prosiect asedau'r sector cyhoeddus 4G/5G – Sicrhau bod asedau'r sector cyhoeddus yn gallu derbyn seilwaith digidol fel celloedd bach i fynd i'r afael â chapasiti ar y rhwydweithiau.
    - Llofnododd Cyngor Abertawe gytundeb mynediad anghyfyngedig gyda Freshwave a oedd yn caniatáu iddynt ddefnyddio asedau sy'n eiddo i'r cyngor ar gyfer cynnal celloedd bach. Dyfeisiau bach, pŵer isel yw'r rhain sy'n gwella signal ffonau symudol mewn ardaloedd prysur.
    - Mewn partneriaeth â Freshwave, dewisodd Virgin Media O2 Abertawe fel un o'r lleoliadau ar gyfer cam nesaf adleoli celloedd bach yn yr awyr agored. Cwblhawyd gosod y celloedd bach ym mis Chwefror 2025, gyda'r wyth uned i gyd yn parhau i wella'r signal symudol yng nghanol dinas Abertawe yn ystod cyfnodau prysur.
  - Y Rhwydwaith Arloesi Digidol – Adleoli pyrth rhwydwaith ardal eang hirbell (LoRaWAN) i hwyluso defnydd y rhyngrwyd pethau ar draws partneriaid awdurdodau lleol.
    - Mae partneriaid y sector cyhoeddus yn y rhanbarth wedi cwblhau'r broses o gyflwyno pyrth LoRaWAN i gefnogi cymwysiadau'r rhyngrwyd pethau ac maent yn defnyddio'r rhwydwaith i dreialu sawl prosiect peilot i yrru arbedion effeithlonrwydd a chostau.
    - Mae Cyngor Abertawe wedi treialu prosiect biniau clyfar yn llwyddiannus, gan ddefnyddio synwyryddion LoRaWAN i gasglu data a mesur lefelau capasiti biniau gwastraff ledled y ddinas, gan alluogi'r tîm gwastraff i ymateb yn rhagweithiol wrth gynllunio llwybrau.
    - Mae Cyngor Sir Caerfyrddin, mewn partneriaeth â Heddlu Dyfed–Powys, yn defnyddio technoleg synwyryddion i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae hyn yn rhoi data defnyddiol i swyddogion heddlu gael gwybod ble mae angen iddyn nhw ganolbwyntio eu hymdrechion.
    - Mae Cyngor Castell-nedd Port Talbot wedi defnyddio synwyryddion yn eu meysydd ~ parcio i nodi tueddiadau a deall sut mae eu prif feysydd parcio yn cael eu defnyddio. Mae hyn yn helpu i lywio penderfyniadau ynghylch rheoli meysydd parcio a'r buddsoddiad ynddynt.





- Mae Cyngor Sir Penfro yn defnyddio technoleg synwyryddion ar gyfer sawl defnydd gwahanol, o gychod gwenyn i reoli adeiladau'r cyngor yn amgylcheddol.
- Cronfa Arloesi 5G – Grant i helpu gyda chostau cyfalaf sy'n gysylltiedig â defnyddio seilwaith 5G a thechnoleg ddi-wifr uwch ar gyfer achosion defnydd penodol sy'n cyd-fynd â nodau strategol Bargen Ddinesig Bae Abertawe.
  - Llofnododd Prifysgol Abertawe gontract gyda Vodafone i ddarparu'r seilwaith a fydd yn sail i Brosiect 5G Campysau, a ddyfarnwyd i'r brifysgol ym mis Tachwedd 2023. Mae cynllunio wedi'i gymeradwyo ar gyfer adeiladu'r seilwaith yn Abertawe ac mae arian wedi'i ddyfarnu i dri myfyriwr doethurol, a fydd yn defnyddio'r seilwaith newydd i gynnal ymchwil a threialu datrysiadau arloesol ym maes iechyd a llesiant.
  - Mae Pentre Awel mewn trafodaethau gyda'u tenantiaid i ddeall y cyfleoedd sy'n gysylltiedig â thechnoleg 5G/di-wifr uwch y gellid eu gwireddu yn y cyfleuster ymchwil iechyd a meddygol hwn sydd o'r radd flaenaf.
  - Cynhaliodd tîm rygbi'r Gweilch weithdy ddechrau 2025 gyda rhanddeiliaid allweddol, yn arddangos eu cynlluniau ar gyfer stadiwm y dyfodol fyddai'n cynnwys creu rhwydwaith 5G preifat annibynnol i wella profiad y cefnogwyr, darparu darlledu o ansawdd uchel, a rheoli gweithrediadau'r stadiwm. Disgwylir y cynnig yn Chwarter 1 2025/26.
- Cyrhaeddodd hyrwyddwyr digidol y rhanbarth restr fer gwobr dileu rhwystrau yn Connected Britain Awards 2024, sy'n gydnabyddiaeth wych i'r gwaith a wneir gan dimau'r awdurdodau rhanbarthol a lleol i chwalu rhwystrau.
- Cynhaliwyd y digwyddiad arloesedd digidol a thechnoleg 5G blynyddol cyntaf, a oedd yn tynnu sylw at y ffordd y gall y dechnoleg hon lywio'r dyfodol.
- Mae cyfres o astudiaethau achos wedi'u datblygu ar fideo ynghyd ag animeiddiadau addysgol sy'n mynd i'r afael â chwestiynau cyffredin gan fusnesau a thrigolion.
  **Edrychwch ar yr astudiaethau achos ar fideo.**




## Cerrig milltir allweddol ar gyfer 2025/26

- Cwblhau uwchraddio rhwydweithiau copr i rwydweithiau ffeibr ar draws 69 o safleoedd sector cyhoeddus ar draws y rhanbarth.
- Cwblhau Ffeibr Tywyll yn y Dwyrain gan Virgin Media O2 Business. Mae hyn yn cynnwys darparu 42 o gysylltiadau mewn 34 o safleoedd sector cyhoeddus yn Llanelli, Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot.
- Dyfarnu tendr Prosiect Mewnlenwi Gwell Band Eang, sy'n rhan o'r ffrwd waith Gwledig ac a fydd yn mynd i'r afael â bylchau sy'n weddill mewn cysylltedd trwy gontractio partner masnachol i adeiladu rhwydwaith a all drosglwyddo data ar gyfradd gigadid i ddarparu band eang cyflym a dibynadwy i safleoedd preswyl a busnes.
- Cyflawni Prosiect Campysau'r Gronfa Arloesi 5G.Ym mis Tachwedd 2023, dyfarnwyd £1.55 miliwn i'r prosiect i ariannu amgylchedd ymchwil ac arloesi o'r radd flaenaf sy'n harneisio seilwaith 5G i wella iechyd poblogaethau a llesiant.
- Cynnal y digwyddiad blynyddol - Llywio'r Llwybr i Gysylltedd Gwell. Bydd yn rhoi trosolwg o'r dirwedd bresennol, mentrau parhaus, a'r materion hollbwysig sy'n ymwneud â chysylltedd digidol.

# FFOCWS AR...

## Gweithio gyda'n gilydd i gael band eang gwell

Mae trigolion Dale, cymuned wledig fach ar arfordir Sir Benfro, wedi dioddef cysylltedd rhyngrwyd gwael ers tro byd, gyda fawr ddim gallu i ddefnyddio'r rhyngrwyd ar gyfer gwaith, adloniant na chyfathrebu. Wrth i fwy o wasanaethau a thasgau o ddydd i ddydd fynd yn ddigidol, roedd cael mynediad cyfyngedig i'r rhyngrwyd yn cael effaith andwyol ar drigolion.

Fodd bynnag, ar ôl cael gwybod gan hyrwyddwyr digidol Cyngor Sir Penfro am brosiect a ariannwyd gan Lywodraeth y DU, mae hyn wedi newid ac mae Dale ar y cyfan bellach wedi'i gysylltu â band eang a all drosglwyddo data ar gyfradd gigadid sy'n gwasanaethu'r pentref i gyd.

Mae'r Cynllun Talebau Band Eang Gigadid yn rhan o raglen Prosiect Gigadid Llywodraeth y DU, sy'n helpu cymunedau anodd eu cyrraedd i wneud gwaith uwchraddio ar eu cysylltiad band eang. Gall cartrefi a busnesau cymwys wneud cais am hyd at £4,500 i dalu costau cysylltiad a all drosglwyddo data ar gyfradd gigadid. Gyda'r cynllun talebau, mae trigolion a busnesau mewn ardaloedd cymwys wedi gallu gwneud cais am gymorth ariannol i dalu costau gosod band eang gigadid.

> Yr anhawster i mi, oedd yn gweithio mewn amgylchedd technolegol, oedd fod y cysylltiad band eang yn eithaf cyfyngedig pan symudais yn ôl i Dale - methu symud ffeiliau mawr, ddim yn gallu gwneud galwadau fideo-gynadledda - roedden ni'n dibynnu ar linellau ffôn copr hen ffasiwn. Roedd y cynllun band eang gigadid fel bwi achub wedi'i daflu tuag atom wrth i ni foddi yn lôn araf y rhyngrwyd.
>
> Oherwydd y cynllun, mae ein bywydau wedi gwella ac mae'n fudd i'n cymuned.
>
> **Dywedodd Kevin Rogers, un o drigolion Dale**



# Cartrefi yn Orsafoedd Pŵer

Bydd y prosiect hwn yn hwyluso mabwysiadu dylunio effeithlon o ran ynni a thechnolegau adnewyddadwy mewn cartrefi, gan helpu i fynd i'r afael â thlodi tanwydd, lleihau allyriadau carbon, a chefnogi twf economaidd yng nghadwyn gyflenwi technoleg adnewyddadwy ar draws y rhanbarth.
**Dysgwch fwy am Cartrefi yn Orsafoedd Pŵer.**

Sganiwch os gwelwch yn dda



| | |
|---|---|
| **£505.5m** | Buddsoddiad |
| **£15m** | Y Fargen Ddinesig |
| **£114.6m** | Sector Cyhoeddus |
| **£375.9m** | Sector Preifat |

**Ynni, a Gweithgynhyrchu Clyfar**

Bydd y prosiect rhanbarthol hwn yn:

- **1,804** o swyddi
- **10,300** cartrefi newydd a phresennol wedi'u gosod gyda thechnolegau adnewyddadwy
- **10,417+KWh** arbed ynni
- **19,000+** tunelli o ostyngiadau $CO^2$ y flwyddyn
- **£251m** cyfraniad at GYC rhanbarthol


HAPS Trawsnewid Cartrefi Cymraeg Transforming Welsh Homes · Cyngor Abertawe Swansea Council · Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council · Neath Port Talbot County Borough / Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot · Cyngor Sir Penfro Pembrokeshire County Council

# Cerrig milltir a chyflawniadau allweddol

- Cwblhawyd gosod technolegau Cartrefi yn Orsafoedd Pŵer yn y tai arddangos ym Margam, Castell-nedd Port Talbot, a chynhaliwyd diwrnodau agored i arddangos y tai. Datblygwyd y rhain ar y cyd â Tai Tarian ac Ysgol Pensaernïaeth Cymru Prifysgol Caerdydd, wedi'u hariannu gan Gyngor Castell-nedd Port Talbot trwy £250,000 o Gronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU. **Darllen mwy.**
- Cytunwyd mewn egwyddor ar ddau gais arall i dderbyn arian o gronfeydd cymhelliannau ariannol, sy'n golygu bod 19 o geisiadau bellach wedi'u cymeradwyo ers i'r cronfeydd agor. Mae hyn yn defnyddio £4.3 miliwn o gyllid y Fargen Ddinesig ac yn denu £49.5 miliwn ychwanegol o gyllid y sector cyhoeddus a phreifat.
- Dyraniad llwyddiannus o £200,000 o gyllid y rhaglen Sgiliau a Thalentau ar gyfer prosiect Renewable Horizons. Rewise, darparwr hyfforddiant. Byddant yn mynychu ysgolion ledled y rhanbarth i gyflwyno gweithdai ar ynni adnewyddadwy, gan weithio ochr yn ochr â Chartrefi fel Gorsafoedd Pŵer i dynnu sylw at ddatblygiadau lleol.
- Dyluniwyd allbynnau a lefelau monitro angenrheidiol ar gyfer tai ôl-osod, a dechreuwyd gosod dyfeisiau.
- Gweithiwyd gyda Banc Datblygu Cymru i rannu gwybodaeth a sicrhau bod pob datblygiad tai ar draws y rhanbarth yn manteisio i'r eithaf ar y cyfle i greu Cartrefi yn Orsafoedd Pŵer.
- Cynhaliwyd cyfarfodydd monitro technegol a chynllunio gwerthuso parhaus gydag Ysgol Pensaernïaeth Cymru Prifysgol Caerdydd i sicrhau cydweithio â gwaith presennol a chyfleoedd cyfredol.
- Cafodd Joel Stenlake ei recriwtio fel Cydlynydd Technegol Cartrefi yn Orsafoedd Pŵer.
- Digwyddiadau:
    - Arwain digwyddiad Cefnogi Busnesau yng Nghastell-nedd Port Talbot / Dewch i Gwrdd â'r Fargen Ddinesig, a gynhaliwyd ym Mharc Margam ac a groesawodd dros 75 o fynychwyr.
    - Cydlynwyd digwyddiad ymgysylltu â rhanddeiliaid Daikin yng Ngardd Fotaneg Genedlaethol Cymru, Sir Gaerfyrddin, i arddangos cyfleoedd technolegau pympiau gwres.
    - Gwnaed cyflwyniad yng nghynhadledd ôl-osod Partneriaeth Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol y De-orllewin ym Mharc y Scarlets, Sir Gaerfyrddin, a amlinellodd ofynion y diwydiant a meysydd datblygu.
    - Mynychwyd Grŵp Sgiliau a Hyfforddiant HWB Carbon Sero Cymru.

# Cerrig milltir allweddol ar gyfer 2025/26

- Lansio Cronfa Datblygu'r Gadwyn Gyflenwi gwerth £7 miliwn, a fydd yn manteisio ar y galw rhanbarthol i ddenu gweithgynhyrchwyr, cyflenwyr a gosodwyr i'r rhanbarth ac i ysgogi cwmnïau presennol i weithgynhyrchu, hyfforddi a buddsoddi mewn ymateb i anghenion y rhanbarth.
- Digwyddiad Cartrefi yn Orsafoedd Pŵer i arddangos y cynlluniau tai sy'n elwa o'r cronfeydd cymhelliannau ariannol.
- Clustnodi'r cronfeydd cymhelliannau ariannol sy'n weddill, yn cyd-fynd ag anghenion pob awdurdod lleol.
- Parhau i chwilio am gyfleoedd i ddenu cyllid ychwanegol sy'n cefnogi amcanion y prosiect.



# FFOCWS AR...

## Tai arddangos

Ym mis Mawrth 2024, cynhaliodd Cartrefi yn Orsafoedd Pŵer gyfres o ddigwyddiadau agored i arddangos tai'r cynllun yng Nghastell-nedd Port Talbot yn llwyddiannus. Wedi'u hariannu drwy Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU a thrwy gydweithio â Tai Tarian ac Ysgol Pensaernïaeth Cymru Prifysgol Caerdydd, cafodd dau dŷ o'r 1950au eu hôl-osod â thechnolegau Cartrefi yn Orsafoedd Pŵer, gan gynnwys pwmp gwres, batri a phaneli solar.

Wedi'u creu i gefnogi amcanion prosiect Cartrefi yn Orsafoedd Pŵer, y diben oedd arddangos yr amrediad o ddatrysiadau ôl-osod sydd ar gael, gan helpu i greu cartref iach a fforddiadwy a chreu 'landlordiaid y dyfodol'. Bu amrediad eang o randdeiliaid hefyd yn dysgu am osodwaith y tai arddangos, y gwersi a ddysgwyd a'r manteision.

Yn ogystal â'r ddau dŷ gafodd eu hôl-osod, cafodd 41 o gartrefi ychwanegol Tai Tarian eu ffitio â systemau iOpt yn sgil yr arian. Synwyryddion monitro eiddo o bell nad ydynt yn ymyrryd yw'r rhain ar gyfer darparwyr tai cymdeithasol ac maent yn gallu mesur y defnydd o drydan yn ogystal â lefelau lleithder. Mae hyn yn galluogi Tai Tarian i ddod yn 'landlordiaid y dyfodol', lle maent yn derbyn data'n uniongyrchol i reoli'r eiddo a chefnogi'r tenantiaid.

Ymhlith llwyddiannau'r prosiect oedd:

- 370 o bobl o leiaf yn ymweld â'r tai yn ystod 24 o ddigwyddiadau, gan gynnwys trigolion lleol, gosodwyr, swyddogion y llywodraeth a'r sector cyhoeddus, a chynrychiolwyr 38 o gwmnïau gwahanol ledled y DU.
- 13 o ddarnau o seilwaith ynni carbon isel neu sero yn cael eu gosod, dros ddwbl y targed a osodwyd.
- 43 o dai yn cael cymorth, gyda tharged disgwyliedig o bedwar.

"Roedden ni wrth ein bodd o gael y cyfle i fynd i bartneriaeth gyda Chartrefi fel Gorsafoedd Pŵer ac Ysgol Pensaernïaeth Cymru Prifysgol Caerdydd i arddangos darpariaeth cartrefi glanach, gwyrddach a mwy effeithlon o ran ynni. Roedd cael y cyfle i groesawu ymwelwyr i'r eiddo, gan gynnwys tenantiaid, staff, addysgwyr, contractwyr, a chynrychiolwyr o'r llywodraeth, yn ychwanegu gwerth gwirioneddol. Fe wnaeth ganiatáu i bawb weld o brofiad uniongyrchol sut mae atebion ynni gwyrdd ynghyd â mesurau gwella ynni yn bosibl fel rhan o brosiect ôl-osod, gan rannu syniadau a meithrin cysylltiadau lleol cryf a fydd yn cefnogi cyflawni prosiectau ôl-osod llwyddiannus yn y dyfodol. Edrychwn ymlaen at ddysgu o'r profiad hwn a'i ddefnyddio i'n helpu i gynllunio'r gwaith o ôl-osod mwy o'n cartrefi yn effeithiol."

**Dywedodd Craig Maybery-Thomas, Pennaeth Rheoli Asedau a Datgarboneiddio Tai Tarian**



# Sgiliau a Thalentau

Dan arweiniad y Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol ac yn canolbwyntio ar feysydd twf uchel yn y sectorau digidol, adeiladu, ynni, gweithgynhyrchu clyfar, ac iechyd a llesiant. **Dysgwch fwy am Sgiliau a Thalent.**

Sganiwch os gwelwch yn dda



| | |
|---|---|
| **£30m** | Buddsoddiad |
| **£10m** | Y Fargen Ddinesig |
| **£8.5m** | Sector Cyhoeddus |
| **£11.5m** | Sector Preifat |

**Cyflymu'r Economi**

Bydd y prosiect rhanbarthol hwn yn:

- **2,200** o sgiliau ychwanegol
- **14,000** o unigolion â sgiliau uwch
- O leiaf **3,000** o gyfleoedd prentisiaeth
- **20** fframwaith ar gyfer cyrsiau newydd
- O leiaf **2** ganolfan ragoriaeth

Cyngor Abertawe Swansea Council
Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council
Neath Port Talbot County Borough – Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot
Cyngor Sir Penfro – Pembrokeshire County Council

# Cerrig milltir a chyflawniadau allweddol

- Chwe phrosiect peilot sgiliau pellach wedi'u cymeradwyo gan fwrdd y Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol, gan gynyddu cyfanswm y cynlluniau peilot cymeradwy i 27 a chwe phrentisiaeth / datblygiad sgiliau ers i'r rhaglen ddechrau. **Darllen mwy.**
- Chwe phrosiect peilot wedi'u cwblhau gyda phob un ohonynt yn rhagori ar y targedau gwreiddiol.
- Y Baromedr Sgiliau wedi'i adolygu a'i ddiweddaru gyda darpariaeth hyfforddiant wedi'i mudo i system ddigidol.
- Datblygiad pellach y wefan **www.rlp.org.uk** – gyda gwybodaeth am y Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol a rhaglen Sgiliau a Thalentau Bargen Ddinesig Bae Abertawe, yr adran newyddion diweddaraf, a chrynodeb o brosiectau peilot cymeradwy.
- Deunydd marchnata ychwanegol wedi'i gynhyrchu a'i ddosbarthu i fyfyrwyr, rhieni a busnesau yn dangos llwybrau gyrfa sydd ar gael mewn colegau a phrifysgolion ledled y rhanbarth.




- Cynllun peilot profiad gwaith yn cael ei gyflwyno yn Ysgol Dyffryn Aman, sy'n cynnwys profiad mewn diwydiant go iawn ochr yn ochr â gwaith prosiect yn yr ystafell ddosbarth.  Mae ymarfer cwmpasu yn cael ei gynnal i'w gyflwyno i awdurdodau lleol eraill.
- Dean Ward, sylfaenydd a Phrif Swyddog Gweithredol DCW Group, yn cael ei benodi'n gadeirydd newydd y Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol.
- Cynllun peilot cydweithio rhwng athrawon a chyflogwyr wedi'i gwblhau ac adroddiad gwerthuso wedi'i baratoi ar gyfer Llywodraeth Cymru. Roedd hyn i gefnogi staff addysgu yn Ysgol Uwchradd Dŵr y Felin yng Nghastell-nedd gyda gweithredu'r cwricwlwm newydd i Gymru, gan ganiatáu iddynt drosglwyddo eu pynciau i ofynion perthnasol diwydiant.
- Mynychwyd nosweithiau rhieni mewn dwy ysgol fesul awdurdod lleol i godi ymwybyddiaeth am Fargen Ddinesig Bae Abertawe, y Rhaglen Sgiliau a Thalentau, a dewisiadau sydd ar ddod am yrfaoedd yn lleol. Bu croeso mawr i'r ymgysylltu fuodd â rhieni ac athrawon ac mae wedi cynnig cyfleoedd pellach i gydweithio.
- Bwriad i gynnal cynllun peilot profiad gwaith yn Ysgol Dyffryn Aman a fydd yn cynnwys profiad mewn diwydiant go iawn a gwaith prosiect yn yr ystafell ddosbarth. Bydd hyn yn cael ei gyflwyno yn y flwyddyn academaidd nesaf.
- Cynhaliwyd gweithdy gydag arweinwyr prosiectau peilot a rheolwyr prosiectau'r Fargen Ddinesig i rannu arferion gorau a pha weithgareddau a wnaed. Roedd y gweithdy yn llwyddiannus a bwriedir ei ailadrodd.

# Cerrig milltir allweddol ar gyfer 2025/26

- Disgwylir i'r garfan gyntaf o brentisiaid dylunio sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr gwblhau eu cyrsiau.  Dyma'r cwrs cyntaf o'i fath yn y DU i gael ei ddatblygu a'i gyflwyno, gan olygu bod y De-orllewin ar flaen y gad o ran cau bylchau mewn sgiliau digidol yn fyd-eang.
- Lansio Ymyrraeth Sgiliau Ranbarthol flaenllaw a gynlluniwyd i ddiwallu anghenion sgiliau cyflogwyr mewn amser real, gan ymateb ar unwaith i ofynion y sector.
- Mae wyth cwmni o'r rhanbarth wedi cael eu cymeradwyo ar gyfer y rhaglen Fit For Offshore (F4OR), a ariennir drwy'r rhaglen Sgiliau a Thalentau, a fydd yn gwella cyfleoedd i gwmnïau gystadlu yn y farchnad ar y môr.
- Gweithdy pellach i'w gynnal gydag arweinwyr prosiectau peilot a rheolwyr prosiectau Bargen Ddinesig Bae Abertawe i rannu arferion gorau a pha weithgareddau a wnaed, gan annog cydweithio pellach.
- Prosiectau peilot pellach yn symud ymlaen i'w cwblhau.
- Nodi bylchau sgiliau sy'n parhau yn y rhanbarth.

# FFOCWS AR...

## Llwyddiant peilot codi ymwybyddiaeth o dechnolegau carbon isel a sero net

Mae Cyfle, cwmni arweiniol ym maes darparu sgiliau adeiladu a phrentisiaethau, wedi cwblhau ei brosiect peilot yn llwyddiannus, gan gydweithio ag ysgolion a cholegau yn y rhanbarth i godi ymwybyddiaeth o dechnolegau carbon sero net a charbon isel o fewn y sector adeiladu. Wedi'i gysylltu'n agos â nifer o brosiectau'r Fargen Ddinesig, ei nod oedd mynd i'r afael â'r angen brys i leihau carbon yn y diwydiant adeiladu trwy ddarparu hyfforddiant lleihau carbon sy'n berthnasol i'r diwydiant.

Erbyn diwedd y prosiect, roedd Cyfle wedi rhoi'r sgiliau angenrheidiol i unigolion i ddiwallu'r galw cynyddol am arbenigedd yn y maes hwn ac wedi rhagori ar ei dargedau. Roedd y canlynol ymhlith y cyflawniadau allweddol:

- Enillodd **1,124** o unigolion sgiliau ychwanegol
- Cafodd **157** o bobl gymorth i gael prentisiaethau
- **30** o ddisgyblion wedi ymgysylltu â sgiliau ychwanegol
- **164** o unigolion wedi cael eu cefnogi i gael swyddi



> Rwy'n credu ei bod yn syniad gwych bod busnesau'n dod i mewn i siarad am eu busnes oherwydd ei fod yn ehangu fy ngwybodaeth ac yn rhoi dealltwriaeth i mi o'u hamcanion ar gyfer y dyfodol.
>
> **Dywedodd dysgwr o Goleg Sir Gâr**

> Mae'n wirioneddol bwysig i ni fynychu colegau lleol i addysgu myfyrwyr am dechnoleg adnewyddadwy. Wrth fynd drwy'r brentisiaeth, mae'n addysgu'r prentis am y technolegau adnewyddadwy sydd ar gael a'r rhai y gallant eu rhoi ar waith yn eu gweithle yn ogystal â sefydlu beth all effeithio arnynt yn ddiweddarach yn eu hoes drwy newid hinsawdd.
>
> **Dywedodd Abigail Salini, Thermal Earth**

# Prosiectau peilot

## Prosiectau peilot newydd wedi'u cymeradwyo

Dros y 12 mis diwethaf, mae'r rhaglen Sgiliau a Thalentau wedi cymeradwyo chwe phrosiect peilot newydd a fydd yn paratoi pobl ifanc ar gyfer swyddi sydd ar ddod ar draws y rhanbarth.

### Buddsoddiad hyd yma

**£1,731,314**
o Arian Cyfatebol y Sector Cyhoeddus

**£1,465,985**
o Arian Cyfatebol y Sector Preifat

Buddsoddiad Preifat o **£1,794,000**
mewn Prentisiaethau

Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant
University of Wales Trinity Saint David

**403**
o unigolion â sgiliau uwch yn ennill cymhwyster

## Datblygu llwybr dysgu cyfrwng Cymraeg mewn peirianneg a TG

Gan fynd i'r afael yn benodol â bwlch sgiliau, mae'r prosiect hwn yn cynnwys dwy ysgol cyfrwng Cymraeg (Ysgol Gyfun Bro Myrddin ac Ysgol Gyfun Maes y Gwendraeth) ynghyd â Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant yn cydweithio er mwyn cael y cyfle i gyflawni cymwysterau Lefel 2 a 3 mewn peirianneg ac astudiaethau digidol yn y Gymraeg. Drwy weithio gyda'r brifysgol, bydd y myfyrwyr yn cael mwy o ymwybyddiaeth o gyfleoedd y sector ac yn helpu i ddatblygu sgiliau mwy ymarferol gan ddefnyddio'r offer a'r ymchwil, gan greu trosglwyddiad di-dor i addysg uwch.

Mae hwn yn estyniad o brosiect profedig a gymeradwywyd yn 2019 a gynigiodd y cyfle cyntaf yng Nghymru i bobl ifanc mewn dwy ysgol yn Sir Gaerfyrddin astudio peirianneg ac astudiaethau digidol ar Lefel 2 a Lefel 3 trwy gyfrwng y Gymraeg. Hyfforddodd yr ysgolion dros 800 o ddisgyblion rhwng 2019 a 2023.

> Mae Gwobrau'r Rhaglen Sgiliau a Thalentau wedi bod yn sbardun ar gyfer trawsnewid, gan alluogi ein menter addysgol arloesol i gyrraedd uchelfannau newydd yn ein hysgolion. Nid yn unig y mae'r cyllid hwn wedi ehangu mynediad at adnoddau dysgu hanfodol ond hefyd wedi grymuso dysgwyr â sgiliau parod ar gyfer y dyfodol, gan feithrin twf a chyfleoedd rhanbarthol hirdymor.
>
> **Dywedodd Dr Llinos Jones, Pennaeth Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin**

Swansea University
Prifysgol Abertawe

**70**
o unigolion â sgiliau uwch yn ennill cymhwyster

## Sero Net Cymru

Datblygu fframwaith o gyrsiau micro-gymwysterau byr wedi'u cynllunio i fynd i'r afael â'r mater cynyddol o'r bwlch sgiliau gwyrdd mewn diwydiannau sy'n gysylltiedig â gweithgynhyrchu yn y sectorau preifat a chyhoeddus. Bydd yr ystod arloesol hon o gyrsiau yn helpu i feithrin gwybodaeth a sgiliau yn ogystal â datblygu llwybrau gyrfa i gefnogi Cymru i gyrraedd y nod cenedlaethol o sero net.

**200**
o unigolion â sgiliau uwch yn ennill cymhwyster

**80**
o brentisiaethau wedi'u creu

## Profiad gwaith gwyrdd

Menter hanfodol sy'n mynd i'r afael yn ymarferol â'r agenda sero net trwy gynnig lleoliadau ar y safle i fyfyrwyr gyda chefnogaeth dysgu a mentora gydlynol drwyddi draw. Gan weithio'n agos gyda busnesau lleol, bydd yn codi ymwybyddiaeth a llwybrau tuag at adeiladu sero net. Mae'n cwmpasu adeiladu tai newydd ac ôl-osod tai ac yn cynnwys technolegau newydd fel pympiau gwres, ynni solar, ac ynni adnewyddadwy thermol sy'n lleihau allyriadau ynni a charbon.

**800**
o unigolion â sgiliau uwch yn ennill cymhwyster

## Renewable Horizons

Mae'r prosiect addysg STEM arloesol hwn yn canolbwyntio ar y diwydiant ynni adnewyddadwy, gyda phwyslais ar y sector cynhyrchu ynni gwynt ar y môr a ffermydd solar sy'n tyfu. Gan weithio'n agos gyda phartneriaid yn y diwydiant, bydd yn dylunio cymhwyster newydd ar gyfer dysgwyr Cyfnod Allweddol 3 sy'n cwmpasu themâu a sgiliau a fydd yn gweithredu fel pwynt mynediad i'r sector ynni adnewyddadwy. Gan ymgysylltu â 40 o ysgolion ar draws y rhanbarth, bydd yn darparu profiad dysgu ymarferol unigryw ac yn ysbrydoli dysgwyr i ehangu eu gwybodaeth am y sector a'r ystod o gyfleoedd y gall eu cynnig.

**20**
o unigolion â sgiliau uwch yn ennill cymhwyster

## Sgiliau uwch mewn cymwysiadau technoleg a roboteg (ASTRA)

Prosiect peilot sy'n galluogi sefydlu labordy awtomeiddio arloesol yng Ngholeg Castell-nedd Port Talbot i fynd i'r afael ag anghenion esblygol sector peirianneg y rhanbarth. Bydd yn cefnogi datblygiad unedau newydd yn y cwricwlwm presennol, yn benodol o amgylch ffatri glyfar a rheolyddion rhesymeg. Gan weithio'n agos gyda diwydiant lleol, bydd yn caniatáu i fyfyrwyr weld a defnyddio offer ac offer uwch, gan roi llwybr gyrfa ymarferol a chlir iddynt a chyfleoedd dilyniant yn y dechnoleg newydd hon.

**4,500**
o unigolion â sgiliau uwch yn ennill cymhwyster

## Sgiliau gweithlu'r dyfodol

Dan arweiniad Coleg Gŵyr, mae'r prosiect hwn yn gweld colegau'r rhanbarth yn gweithio mewn partneriaeth i ddarparu sgiliau perthnasol i waith i 5,000 o unigolion. Bydd y prosiect yn cefnogi ymyriadau sy'n cael eu harwain yn ôl y galw ar Lefel 3 ac uwch i fynd i'r afael â bylchau sgiliau allweddol yn y farchnad lafur a fydd yn cefnogi twf economaidd a dilyniant unigol. Fe'i cynlluniwyd i ddiwallu anghenion cyflogwyr, gan hwyluso twf a gallu sefydliadau i addasu i heriau economaidd a heriau'r farchnad lafur a chefnogi unigolion i ffynnu a symud ymlaen o fewn y farchnad lafur.

# Prosiectau peilot wedi'u cwblhau

Dros y 12 mis diwethaf, mae chwe phrosiect peilot hefyd wedi'u cwblhau, ac mae pob un ohonynt wedi rhagori ar y targedau a osodwyd ganddynt.

Addysgwyd **9,549** o unigolion

**1** cyfle llwybr gyrfa newydd wedi'i greu

## Meithrin iechyd a llesiant mewn sector digidol

Dan arweiniad Ysgol Gyfun Tregŵyr a chan weithio mewn ysgolion ledled Abertawe, dysgodd y cynllun peilot hwn ddisgyblion 16 oed am y sectorau gwyddor bywyd, iechyd a chwaraeon, gan gynnwys datblygu technolegau newydd i gefnogi ffordd o fyw iach a chytbwys.

**183** o unigolion â sgiliau uwch yn ennill cymhwyster

Elwodd **2,320** o unigolion o gynnydd mewn dysgu

**1** cyfle llwybr gyrfa newydd wedi'i greu

## Gyrfaoedd yn y sector digidol

Wedi'i gyflwyno i ddwyrain y rhanbarth gan Gyngor Castell-nedd Port Talbot, mae'n canolbwyntio ar yr angen am sgiliau digidol gwell yn y diwydiant creadigol ar gyfer dysgwyr cyn ac ôl-16.

**281** o gymwysterau lefel uwch

Wedi creu llwybr gyrfa i **8,430** o ddisgyblion

## Sero net: Pa mor wyrdd oedd fy nyffryn?

Adeiladodd hyn garfan o athrawon yn weithlu gwybodus ac effeithiol a ddefnyddiodd sgiliau digidol a gemau i hyfforddi disgyblion am newid hinsawdd, pwysigrwydd sero net a'r cyfleoedd o'r economi gylchol. Wedi'i gyflwyno mewn arddull 'hyfforddi'r hyfforddwr' i athrawon a oedd wedyn yn cyflwyno'r wybodaeth yn ôl i'r ystafell ddosbarth.

**83** o unigolion â sgiliau uwch yn ennill cymhwyster

**6** fframwaith cwrs newydd neu wedi'u diweddaru wedi'u datblygu

## Sgiliau sero net Cymru

Wedi'i gynllunio i fynd i'r afael â'r bylchau sgiliau gwyrdd yn y sector preifat a chyhoeddus mewn diwydiannau sy'n gysylltiedig â gweithgynhyrchu, mae'r cynllun peilot hwn hefyd yn meithrin gwybodaeth a sgiliau i greu llwybrau gyrfa i gefnogi Cymru i gyrraedd ei thargedau sero net. Fe'i cyflwynwyd i ddysgwyr uwchradd ac ôl-16 gyda'r cynnwys wedi'i deilwra i arferion gwaith go iawn, beunyddiol

# Llwyddiant cynllun peilot Cyrchfan Ynni Adnewyddadwy

Y cynllun peilot cyntaf i gael ei gymeradwyo, daeth y cynllun peilot unigryw hwn â myfyrwyr o Sir Benfro rhwng 5 ac 19 oed ynghyd, ynghyd â chwmnïau yn y sector ynni adnewyddadwy, i greu fframwaith dan arweiniad y diwydiant ar ynni glas-wyrdd. Wedi'i addysgu gan Goleg Sir Benfro, Ysgol Uwchradd Aberdaugleddau ac Ysgol Harri Tudur, addysgodd ddysgwyr am ynni adnewyddadwy, gan gynnwys tonnau, llanw, solar ac ynni gwynt ar y môr ac ar y tir, gan eu helpu i baratoi ar gyfer swydd yn y sector.

- Addysgwyd **1,350** o unigolion
- Enillodd **30** o unigolion sgiliau uwch gymwysterau
- **2** gyfle llwybr gyrfa newydd wedi'u creu
- **3** fframwaith cwrs newydd neu wedi'u diweddaru wedi'u datblygu
- Enillodd **3** wobr achredidig yn y diwydiant
- Wedi'i gyflwyno mewn **4** coleg arall (Grŵp Colegau CnPT, Ysgol Forol Falmouth, Coleg Chelmsford a Sefydliad Colchester)
- Mewn trafodaeth i'w gyflwyno gyda **2** goleg arall

> Dyma amser cyffrous iawn i fod yn arwain y newid mewn ynni adnewyddadwy; nid yn unig mae'n angenrheidiol ar gyfer dyfodol y blaned, ond yn gyfle ar gyfer arloesi, twf a chydnerthedd swyddi hirdymor i'r rhanbarth hwn. Gyda threftadaeth gyfoethog yn y sector ynni sydd o bwys strategol, mae ymgorffori 'Cyrchfan Ynni Adnewyddadwy' yn allweddol i ddyfodol cynaliadwy a fforddiadwy.

**Dywedodd Tim Berry**
**Darlithydd ar y rhaglen Cyrchfan Ynni Adnewyddadwy yng Ngholeg Sir Benfro**

> Mae'r cwrs hwn wedi agor fy llygaid i botensial anhygoel ynni adnewyddadwy. Nid dim ond y dechnoleg sy'n bwysig; mae'n ymwneud â sut y gallwn ni helpu i drawsnewid ein cymuned leol a helpu'r blaned. Mae'r darlithoedd rhyngweithiol a'r cymwysiadau byd go iawn yn gwneud y broses ddysgu gymaint yn fwy deniadol ac ystyrlon. Rwy'n gyffrous i fod yn rhan o'r symudiad hwn tuag at ddyfodol cynaliadwy.

**Dywedodd PJ Gallacher**
**dysgwr ar y rhaglen Cyrchfan Ynni Adnewyddadwy**



Coleg Sir Benfro Pembrokeshire College | EDF | Blue Gem Wind | bombora | Catapult Offshore Renewable Energy

# Campysau

Mae'r prosiect hwn yn canolbwyntio ar dyfu a gwella'r sector technoleg chwaraeon a thechnoleg feddygol trwy dri phrosiect cydgysylltiedig ar draws dau safle yn Singleton a Threforys yn Abertawe, a chreu rhwydwaith arbenigol sy'n canolbwyntio ar y sector. **Dysgwch fwy am Gampysau.**

Sganiwch os gwelwch yn dda




| | |
|---|---|
| **£135.2m** | Buddsoddiad |
| **£15m** | Y Fargen Ddinesig |
| **£58m** | Sector Cyhoeddus |
| **£62.2m** | Sector Preifat |

**Gwyddor bywyd a llesiant**

Bydd y prosiect hwn yn Abertawe yn creu:

- **1,120** o swyddi
- **2,000m²** o ofod ymchwil ac arloesi mewn technoleg chwaraeon a thechnoleg feddygol
- Canolfan **700m²** ar gyfer cydweithio masnachol ac academaidd
- Rhwydwaith o dros **300** o gwmnïau clwstwr
- Dros **100** o gyfleoedd arloesi a masnachol
- **£150m** cyfraniad at GYC rhanbarthol

Cyngor Abertawe Swansea Council | Swansea University Prifysgol Abertawe | GIG CYMRU NHS WALES Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe Swansea Bay University Health Board

# Cerrig milltir a chyflawniadau allweddol



- Cyhoeddwyd mai Willmott Dixon fyddai'r contractwr ar gyfer y cyfleuster gwyddorau bywyd yn Lôn Sgeti yn dilyn proses gaffael a thendro lwyddiannus. Cynhaliwyd trafodaethau cychwynnol a chyfarfodydd cynllunio cynnar.
- Cynhaliwyd digwyddiad ymgynghori cyhoeddus ynglŷn â Lôn Sgeti i ymgysylltu â'r gymuned leol a mynd i'r afael ag unrhyw bryderon ac ateb cwestiynau.
- Cafodd y Rhwydwaith Cenedlaethol ar gyfer Arloesedd mewn Chwaraeon ac Iechyd (NNIISH) ei lansio. **Darllen mwy.**
- Cyhoeddwyd bod cyn-chwaraewr rygbi rhyngwladol Cymru, Alun Wyn Jones, wedi'i benodi'n gynghorydd strategol ar gyfer NNIISH.
- Parhawyd i weithio gyda'r prosiect Seilwaith Digidol a Vodafone ar brosiect Cronfa Arloesi 5G, sydd wedi sicrhau cyllid gwerth £1.5 miliwn o'r rhaglen Seilwaith Digidol.
- Parhawyd i symud ymlaen gyda phrosiect peilot Sgiliau AGOR – Iechyd a Llesiant Chwaraeon, a lwyddodd i sicrhau £150,000 o gyllid o'r rhaglen Sgiliau a Thalentau.
- Mynychwyd Cynhadledd Canol Dinas 4theRegion yn Abertawe a chymerwyd rhan mewn trafodaeth banel ar arloesi mewn chwaraeon ac iechyd yn y rhanbarth. Rhagor o wybodaeth. **Darllen mwy.**
- Canolfan Cyflymu Technoleg Gofal Iechyd – prosiect ym Mhrifysgol Abertawe sy'n cydweithio â Champysau a phrosiect Pentre Awel i ddod ag arbenigedd ynghyd ar arloesedd a chyfleoedd cydweithredol mewn gwyddor bywyd.
- Prif noddwyr Sports Technology Awards 2025, a gynhaliwyd yn Llundain ym mis Ebrill 2024.
- Adeiladwyd partneriaethau strategol gyda sefydliadau allweddol mewn sectorau targed, gan gynnwys y Gweilch, Chwaraeon Cymru, Vodafone a Hoci Cymru.

# Cerrig milltir allweddol ar gyfer 2025/26



- Cyflwyno cais cynllunio, cael hwnnw wedi'i gymeradwyo, a dechrau adeiladu ar gyfer datblygiad Lôn Sgeti.
- Cyflwyno cais cynllunio ar gyfer llwybr mynediad i'r safle 55 erw yn Ysbyty Treforys, a gynigir fel rhan o Gam 2 y prosiect.
- Dylunio a thendro ar gyfer y ganolfan reoli yn Ysbyty Treforys.

# FFOCWS AR...

## Lansio NNIISH

Ym mis Gorffennaf 2024, cafodd y Rhwydwaith Cenedlaethol ar gyfer Arloesedd mewn Chwaraeon ac Iechyd (NNIISH) ei lansio gan brosiect Campysau. Mae'r gymuned ddeinamig wedi ymrwymo i hyrwyddo arloesedd mewn chwaraeon, iechyd a llesiant a bydd yn cysylltu arbenigwyr ar dechnoleg chwaraeon a thechnoleg feddygol i gyflymu datblygiad atebion yn y sector hwn. Mae'r rhwydwaith yn tyfu'n gyflym ac mae'r aelodau'n cynnwys Vodafone, amrywiaeth o fusnesau bach a chanolig, gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a chyrff chwaraeon, pob un â'r nod cyffredin o wella chwaraeon a llesiant yng Nghymru a thu hwnt.

Gall aelodau ymuno â'r rhwydwaith yn rhithiol i fwynhau manteision cydweithio ag aelodau eraill y rhwydwaith, ac mae yna ddigwyddiadau a gweminarau hefyd, yn ogystal â mynediad at gymuned academyddion a chyfleusterau Prifysgol Abertawe, a gweithwyr proffesiynol y bwrdd iechyd lleol. Gall aelodau hefyd gysylltu â'i gilydd ar y campws drwy weithio o ddesg i ddesg neu rentu gofod swyddfa ym Mhrifysgol Abertawe neu Ysbyty Treforys.

> Mae ARCH yn falch o fod yn cefnogi'r rhwydwaith, sy'n hyrwyddo arloesedd, menter a thwf ymchwil ar draws y rhanbarth. Rwy'n edrych ymlaen at ddatblygu prosiectau cydweithio i adeiladu ar arbenigedd rhanbarthol mewn gwyddor bywyd, llesiant ac arloesedd clinigol i helpu i atal afiechyd a datblygu triniaethau gwell ac ansawdd bywyd gwell.

**Dywedodd Siôn Charles**
**Pennaeth Strategaeth a Chynllunio**
**Gwasanaethau Cydweithrediad Rhanbarthol**

> Mae gweithio gyda'r rhwydwaith a bod ar y campws yn dod â manteision mawr i'r tîm yn Imersifi. Rydym yn cyfarfod yn rheolaidd ag academyddion ac yn cael y cyfle i arddangos ein technoleg i gynulleidfa ehangach. Mae hefyd yn gwneud y dechnoleg yn fwy hygyrch i fyfyrwyr fel y gallwn ddatblygu a defnyddio profiadau addysgol mewn cyrsiau yn fwy effeithlon.

**Dywedodd Joe Charman**
**Cyd-sylfaenydd Imersifi**



# Ardal Forol Doc Penfro (AFDP)

Nod y prosiect hwn yw sefydlu cyfleusterau ynni a pheiriannu, saernïo a phrofi morol o'r radd flaenaf i dyfu'r economi carbon isel trwy bedwar prif brosiect. **Dysgwch fwy am Brosiect Ardal Forol Doc Penfro.**

Sganiwch os gwelwch yn dda



| | |
|---|---|
| **£67.7m** | Buddsoddiad |
| **£28m** | Y Fargen Ddinesig |
| **£19.2m** | Sector Cyhoeddus |
| **£20.5m** | Sector Preifat |

**Ynni, a Gweithgynhyrchu Clyfar**

Disgwylir i'r prosiect yn Sir Benfro greu:

- **1,881** o swyddi
- **60,600m²** o seilwaith ffisegol
- **1,000 MW** o gyfraniad at dargedau datgarboneiddio
- **£343.3m** cyfraniad at GYC rhanbarthol

Mae'r prosiect hwn yn cael ei ariannu'n rhannol gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop drwy Lywodraeth Cymru.

# Cerrig milltir a chyflawniadau allweddol

## Seilwaith Doc Penfro

- Seremoni agoriadol swyddogol i nodi cwblhau Seilwaith Doc Penfro, sy'n cynnwys llithrfa enfawr a phontynau cychod gwaith, lle storio helaeth, a'r gwaith o adnewyddu rhandai siediau awyrennau Sunderland yn swyddfeydd a llefydd gweithio. Roedd y Prif Weinidog Eluned Morgan AS, Dirprwy Brif Weinidog Llywodraeth y DU, Angela Rayner AS, ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru, Jo Stevens AS, yn bresennol yn y digwyddiad agoriadol.
**Darllen mwy.**
- Croesawyd cwsmeriaid newydd i ddefnyddio'r pontynau cychod gwaith newydd ac i weld rhandai'r siediau awyrennau.
- Derbyniwyd sawl ymweliad gan gynrychiolwyr buddsoddwyr.
- Cynhaliwyd digwyddiad cadwyn gyflenwi Global Underwater Hub (GUH) ar gyfer cadwyn gyflenwi tanfor Cymru i ymgysylltu'n uniongyrchol â GUH a darganfuwyd sut y gall eu hadnoddau helaeth, eu rhwydweithiau a'u mewnwelediadau i'r diwydiant fod o fudd i weithrediadau tanfor.
- Cynhaliwyd diwrnodau agored eiddo masnachol rheolaidd i hyrwyddo cyfleusterau newydd rhandai'r siediau awyrennau.

## Ardal Arddangos Sir Benfro

- Parhaodd Celtic Sea Power fel rheolwr trydydd parti ar gyfer Ardal Arddangos Sir Benfro, i ddadlau'r achos, ar sail tystiolaeth gredadwy, dros ehangu prydles yr ardal i gynnwys technolegau gwynt ar y môr a hydrogen, yn ogystal ag ynni'r tonnau a'r llanw.
- Mae ei hagosrwydd at ardaloedd prydles y Môr Celtaidd, a'i galluogrwydd a chapasiti diwydiannol, gan gynnwys ym Mhenfro a Phort Talbot, yn ei gwneud yn ymgeisydd cryf i ddarparu safle profi ar raddfa fasnachol ar gyfer y DU. Pe bai'n cael ei wireddu, gallai gyfrannu'n sylweddol at dwf rhanbarthol yn deillio o arloesi a chyflenwi ynni gwynt ar y môr.
- Manteisio ar fuddsoddiad a chydweithio i ddatblygu cenhadaeth Ardal Arddangos Sir Benfro:
    - Darparwyd cyllid o £70,000 i gydweithrediad Celtic Sea Power gyda Theyrnas Ynni Aberdaugleddau (MH2), a ddenodd £1.44 miliwn o weithgarwch a ariannwyd gan Innovate UK, Wales and West Utilities, a chyllid sector preifat gan Dolphyn Hydrogen. Bydd MH2 yn helpu i ddatblygu dyluniad peirianyddol ar gyfer buddsoddiad masnachol yn Ardal Arddangos Sir Benfro gan ddefnyddio technoleg Dolphyn Hydrogen ERM. ERM yw'r arbenigwr mwyaf yn y byd ar ymgynghori ar gynaliadwyedd.
    - Celtic Sea Power oedd penseiri'r prosiect Seinwedd Tanfor a chefnogodd Offshore Renewable Energy Catapult (OREC) i sicrhau cyllid gan y Bartneriaeth Twf Ynni Gwynt ar y Môr (OWGP). Mae £150,000 o gyllid wedi denu £350,000 pellach o'r gronfa a bydd yn darparu data amgylcheddol sylfaenol ar gyfer Ardal Arddangos Sir Benfro a'r Môr Celtaidd ehangach.







## Ardal Profi Ynni Morol

- Cwblhawyd profion mewn amryfal ardaloedd profi ynni morol, gan gynnwys:
    - Dale Road ac East Pickard Bay: Defnyddiodd PEBL (sefydliad monitro amgylcheddol o Gymru) orsafoedd monitro amgylcheddol newydd o bell ac fe lwyddon nhw i gwblhau'r profion.
    - Cei Criterion: Rhoddwyd cwch hydrogen ERM ar waith.
- Lansiwyd prosiect ysgolion 'Coasting into Marine Energy' yn y flwyddyn ariannol flaenorol ar y cyd â'r rhaglen Sgiliau a Thalentau, y Lloyds Register Foundation a Phorthladd Aberdaugleddau, lle cyflwynodd pum grŵp o ddysgwyr o Sir Benfro syniadau am brofion yn gysylltiedig ag ynni morol. Datblygodd grwpiau o Ysgol Gelli Aur ac Ysgol Gynradd Gymunedol Fenton syniadau i greu microgynefinoedd ar gyfer adeileddau caled a gyflwynwyd i arbenigwyr. Profwyd y syniadau hyn gydag arbrawf mewn ardal profi ynni morol, a dadansoddodd y disgyblion eu canlyniadau. Gwnaeth Ysgol Gynradd Gymunedol Saundersfoot hefyd fodelau o blatfformau gwynt arnofiol, gan ymchwilio i sut i wella eu sadrwydd.

## Canolfan Ragoriaeth Peirianneg Ynni Morol

- Aed i bartneriaeth â Celtic Sea Power a Phrifysgol Caerwysg i gyflawni'r prosiect Seinwedd Tanfor. Wedi'i ariannu gan Ystad y Goron, bydd y prosiect yn arloesi dull rhanbarthol newydd o fonitro sain tanddwr yn y Môr Celtaidd i gefnogi asesiadau amgylcheddol yn y dyfodol ar gyfer ffermydd gwynt arnofiol newydd ar y môr yn y rhanbarth.
- £29,000 o gyllid i gefnogi cyflawni prosiect Ail-lenwi Porthladd Hydrogen (HyPR 2) dan arweiniad Porthladd Aberdaugleddau ac wedi'i ariannu gan raglen HyBRID SBRI 2.0 Cyfnod 2 Llywodraeth Cymru.
- £23,000 o gyllid gan Cymru Ystwyth i annog cydweithrediad ar draws Môr Iwerddon ar ddatgomisiynu ynni gwynt ar y môr a'r economi gylchol.
- Cafodd sesiwn banel ar y gadwyn gyflenwi ei chyflwyno ar y cyd â rhwydwaith gweithgynhyrchu uchel ei werth Catapult yng nghynhadledd Dyfodol Ynni Cymru.
- Cyflwynwyd arddangosfa mewn digwyddiad 'sbotolau' deuddydd yn Llundain, mynychwyd cyfarfod o'r grŵp seneddol trawsbleidiol yn San Steffan ar y Môr Celtaidd, a chefnogwyd Porthladd Aberdaugleddau gyda chyflwyniad i Japan Marine United.
- Enillwyd cyllid gan Innovate UK gwerth £328,000 o dan raglen ddwyochrog y DU a Singapore i gyflawni prosiect AMBROSIA, sy'n arddangos technoleg monitro amgylcheddol arloesol ar y môr.

# Cerrig milltir allweddol ar gyfer 2025/26

- **Seilwaith Doc Penfro:** Parhau â gweithrediadau masnachol ym mhontynau'r cychod gwaith, rhandai'r siediau awyrennau, y llithrfa a'r lle storio.Bydd Porthladd Aberdaugleddau yn gwerthuso'r achos busnes ar gyfer gwaith Lot 3.
- **Ardal Arddangos Sir Benfro:** Bydd Celtic Sea Power yn sicrhau amrywiad ar y brydles gan Ystad y Goron.
- **Ardal Profi Ynni Morol:** Wedi'i sefydlu fel cyfleuster profi ynni morol, bydd ei gyllid gan Fargen Ddinesig Bae Abertawe yn dod i ben ym mis Mehefin 2025. Bydd yn bwrw ymlaen fel cyfleuster cwbl weithredol yn denu dyfeisiau'r genhedlaeth nesaf i Gymru i'w profi a'u dilysu.
- **Canolfan Ragoriaeth Peirianneg Ynni Morol:** Bydd ORE Catapult yn cynnal cystadleuaeth arloesi mewn monitro amgylcheddol, gan gefnogi tair technoleg newydd i'w harddangos yn yr Ardal Profi Ynni Morol. Y nod yw creu refeniw o £200,000 gan gyllidwyr allanol.

# FFOCWS AR...

## Agoriad swyddogol Seilwaith Doc Penfro

Ym mis Awst 2024, cyrhaeddodd Prosiect Ardal Forol Doc Penfro garreg filltir arwyddocaol gydag agoriad swyddogol elfen Seilwaith Doc Penfro y prosiect. Wedi'i gynnal ym Mhorthladd Penfro, roedd y digwyddiad yn dathlu lansio canolfan ynni gwyrdd a pheirianneg amlbwrpas newydd i Gymru gyda phwyslais ar arloesedd ac effeithlonrwydd gweithredol. Ymhlith y gwesteion roedd y Prif Weinidog Eluned Morgan AS, Dirprwy Brif Weinidog Llywodraeth y DU, Angela Rayner AS, ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru, Jo Stevens AS.

> Pembrokeshire's long heritage of maritime excellence is leading the way for the future of the UK with the launch of this Pembroke Dock Marine programme. This is a major step towards us becoming a world leader in zero-carbon marine engineering and tackling climate change for a cleaner, greener, more ambitious future for us all.
>
> And a future where we see our bold ambitions on growth and jobs for and with every part of the UK go hand in hand with our ambitions on Net Zero and sustainable energy.
>
> **Angela Rayner AS**
> **Dywedodd Dirprwy Brif Weinidog Llywodraeth y DU**

Dan arweiniad Porthladd Aberdaugleddau, mae'r datblygiad hwn wedi darparu seilwaith porthladd newydd, o'r radd flaenaf, yn Noc Penfro, sy'n cynnwys llithrfa enfawr a phontynau cychod gwaith, lle storio helaeth, a man gwaith hyblyg ar gyfer cwmnïau yn y sector ynni gwyrdd yn hen randai siediau awyrennau Sunderland.

Gan weithio ar y cyd â'r Ardal Profi Ynni Morol a'r Ganolfan Ragoriaeth Peirianneg Ynni Morol, a chan archwilio'r datblygiadau ym mhotensial Ardal Arddangos Sir Benfro, mae cwblhau Seilwaith Doc Penfro yn nodi cam enfawr ymlaen o ran gyrru arloesedd a chreu cyfleoedd newydd ar gyfer twf diwydiannol yn y sector ynni a pheirianneg. Yn ogystal â chais llwyddiannus y Porthladd Rhydd Celtaidd, mae'r rhanbarth yn dechrau denu sylw buddsoddwyr a datblygwyr ynni adnewyddadwy byd-eang.



# Pentre Awel

Mae Pentre Awel yn cyfuno ymchwil feddygol o'r radd flaenaf, cyfleusterau datblygu busnes, gofal iechyd cymunedol, byw â chymorth, a chanolfan hamdden a dyfrol o'r radd flaenaf i gefnogi ac annog pobl i fyw bywydau egnïol ac iach. **Dysgwch fwy am Bentre Awel.**

Sganiwch os gwelwch yn dda



| | |
|---|---|
| **£218.6m** | Buddsoddiad |
| **£40m** | Y Fargen Ddinesig |
| **£68.5m** | Sector Cyhoeddus |
| **£110.1m** | Sector Preifat |

**Gwyddor bywyd a llesiant**

Bydd y prosiect hwn yn Sir Gaerfyrddin yn creu:

- **1,853** o swyddi
- **50,000m²** o ddatblygiad ar draws y pedwar parth
- **20,000m²** o gyfleusterau busnes, ymchwil, addysg, clinigol, hamdden a chymunedol o fewn Canolfan
- **80** o fusnesau wedi'u sefydlu a'u cefnogi o fewn y sectorau gwyddorau bywyd, iechyd a gofal cymdeithasol
- **£467m** cyfraniad at GYC rhanbarthol

LLANELLI - SIR GAERFYRDDIN - CYMRU
Pentre Awel
LLANELLI - CARMARTHENSHIRE - WALES

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

# Cerrig milltir a chyflawniadau allweddol

- Parth 1 wedi'i enwi'n swyddogol yn 'Canolfan'.
- Y gwaith adeiladu ar Canolfan yn parhau, gan gynnwys cwblhau'r amlen allanol a'r newid i wasanaethau mecanyddol a thrydanol mewnol, a'r gwaith ar nenfydau, lloriau, rhaniadau a gwaith gosod offer. Mae'r gwaith mewnol bellach wedi datblygu'n dda ac yn canolbwyntio ar orffeniadau terfynol, addurniadau, a gosodiadau a ffitiadau. **Edrychwch ar luniau 360° o'r awyr i weld y cynnydd.**
- Nodwyd wythnos 113 o waith adeiladu ar y safle ar 31 Mawrth 2025.
- Llofnododd Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda gytundeb i brydlesu ar gyfer ei ofod iechyd ac ymchwil yn Canolfan.
- Cwblhawyd llwybr troed i'r gogledd o'r llyn, a greodd lwybr cerdded/beicio 1.38 cilometr o amgylch y llyn.
- Comisiynwyd Arup fel y pensaer tirlun i ddatblygu dyluniad Cam 1 Sefydliad Brenhinol Penseiri Prydain ar gyfer y man gwyrdd i'r gogledd o'r safle, a chwblhawyd y gwaith.
- Dyfarnwyd contractau i Nest EV a Sustainable Energy Group am y peiriant gwefru cerbydau trydan a Chase Services Group am ddiogelwch y safle.
- Cyhoeddwyd tystysgrif cam dylunio Dull Asesu Amgylcheddol y Sefydliad Ymchwil Adeiladu (BREEAM) gyda sgôr o 75.7%, sef safon "rhagorol" y sefydliad.
- Mae Bouygues UK wedi:
    - Rhagori ar ei ymrwymiad contractiol o 4,680 wythnos pum diwrnod o recriwtio a hyfforddiant wedi'u targedu. Mae wedi cyflawni cyfanswm o 5,205 wythnos pum diwrnod hyd yn hyn, gan gynnwys gwaith gan 67 o brentisiaid, 76 o ymgeiswyr newydd, 32 o hyfforddeion, 11 o leoliadau profiad gwaith ac wyth o raddedigion.
    - Rhyngweithio ag 817 o ddisgyblion ysgol ac ymgysylltu ag ysgolion am 213 awr. Mae ail garfan o ddisgyblion ysgolion cynradd ac uwchradd yn cymryd rhan mewn prosiect dysgu yn y byd go iawn ac wedi cael y dasg o ddylunio cartref nyrsio ym Mharth 2 neu westy llesiant ym Mharth 4. Daeth y prosiect yn ail yng ngwobrau STEM Cymru ym mis Tachwedd.
    - Cyhoeddi pedwar cylchlythyr cymunedol a chynnal pedair cymhorthfa i breswylwyr. Cynhaliwyd digwyddiadau cymunedol ac ymgysylltu cyhoeddus hefyd yng nghanolfannau Morfa, Antioch a Selwyn Samuel yn Llanelli.
    - Cadw 75% (£54 miliwn) o wariant adeiladu ym Mharth 1 yng Nghymru trwy ddefnyddio is-gontractwyr a chyflenwyr o Gymru, gan wneud y mwyaf o werth y bunt Gymreig.
- Paratowyd briff dylunio Parth 2 ar gyfer y cartref nyrsio/preswyl a'r uned gofal ychwanegol, a fydd yn cynnig uwchgynllun clir, rhaglen, cynllun costau a dyluniad cysyniad ar gyfer y parth.
- Mae deialog gystadleuol ar y gweill i nodi partner/gweithredwr datblygu a ffefrir ar gyfer y gwesty llesiant ym Mharth 4.



# Cerrig milltir allweddol ar gyfer 2025/26

- Agor Parth 1 a throsglwyddo Canolfan Hamdden Llanelli i Bentre Awel.
- Cyflawni rhaglen o waith gosod offer i'r gofodau iechyd a busnes a sicrhau tenantiaid.
- Cwblhau ymarfer deialog gystadleuol ar gyfer gwesty llesiant ym Mharth 4, gan nodi partner/gweithredwr datblygu a ffefrir.
- Cadarnhau dichonoldeb llety byw â chymorth ym mharthau 2 a 3 yn dilyn dyluniadau cysyniad cychwynnol.

# FFOCWS AR...

## Sero Net mewn Adeiladwaith

Mae Bouygues UK, y prif gontractwr sy'n adeiladu Pentre Awel, wedi gweithio gyda'i isgontractwyr a'i gadwyn gyflenwi drwy gydol y cyfnod adeiladu o 24 mis i gyflawni sero net ar y cam adeiladu.

Mae hyn yn cynnwys:

- Gostyngiad o dros 90% ar allyriadau uniongyrchol o bob tanwydd ar y safle
- Gostyngiad o 10% mewn cynhyrchu gwastraff a defnyddio ynni a dŵr

Mae hyn wedi arwain at arbediad o dros 450 tunnell o allyriadau carbon.

Mae'r prosiect wedi gweithredu mentrau arbed ynni, gwastraff ac adnoddau, gan gynnwys:

- Mabwysiadu olew llysiau wedi'i drin â hydrogen (HVO) fel tanwydd, sy'n ardystiedig o ran cynaliadwyedd. Bydd y fenter hon yn cael ei chyflwyno i bob un o safleoedd Bouygues UK ledled y DU.
- Cyrchu deunyddiau wedi'u hailgylchu a rhai gwyrdd.

Targedwyd 24 o fentrau penodol i helpu i leihau allyriadau, gwastraff ac ynni, gan gynnwys:

- Swyddfa ar y safle a chamerâu teledu cylch cyfyng sy'n defnyddio ynni'r haul.
- Cyrchu deunyddiau adeiladu wedi'u hailgylchu, gan gynnwys bariau wedi'u hatgyfnerthu â 98% o gynnwys eildro a dur adeileddol ag 80% o gynnwys eildro.
- Cludo pridd o'r wyneb yn ystod gwaith cloddio i gyfleuster ailgylchu lleol i'w wahanu, ei drin a'i ailddefnyddio.
- Partneriaeth â Gaia i nodi, monitro a lleihau'r defnydd o bŵer gan ddefnyddio deallusrwydd artiffisial a synwyryddion. Roedd yr arbedion ynni drwy ddefnyddio Gaia yn 47.9%.
- Cael ymgynghorydd ar garbon i nodi datrysiadau carbon isel; monitro gwastraff, carbon a chyflenwadau; ac uwchsgilio'r gweithlu ar bynciau'n ymwneud â'r hinsawdd a'r amgylchedd.




"Rydym yn hynod falch o'r hyn rydym wedi'i gyflawni.Yn ogystal ag adeiladu cyfleuster o'r radd flaenaf ac o ansawdd uchel, fel tîm y prosiect fe benderfynon ni leihau cymaint o'n hallyriadau carbon â phosibl. Fe wnaethon ni roi cynllun ar waith ac rwyf mor falch o ddweud ein bod ni wedi'i gyflawni.

Ni fyddai hyn wedi digwydd oni bai am benderfynoldeb a chefnogaeth nid yn unig staff Bouygues UK yma ym Mhentre Awel, ond hefyd ein hisgontractwyr a'n partneriaid cadwyn gyflenwi anhygoel a ddaeth gyda ni ar y daith sero net hon."

**Dywedodd Peter Sharpe**
**Cyfarwyddwr Prosiect Pentre Awel**

# Cefnogi Arloesedd a Thwf Carbon Isel

Bydd y rhaglen hon yn cyflawni wyth prosiect cydgysylltiedig sy'n cefnogi swyddi a thwf yn y sectorau technoleg ac arloesi carbon isel.

**Dysgwch fwy am Gefnogi Arloesedd a Thwf Carbon Isel.**

Sganiwch os gwelwch yn dda



| | |
|---|---|
| **£75m** | Buddsoddiad |
| **£53m** | Y Fargen Ddinesig |
| **£14.7m** | Sector Cyhoeddus |
| **£7.3m** | Sector Preifat |

**Ynni, a Gweithgynhyrchu Clyfar**

Bydd y rhaglen hon yng Nghastell-nedd Port Talbot yn creu:

- **1,320** o swyddi
- **18,500m²** o arwynebedd llawr ar gyfer y sector ynni isel
- **£10m** ar gyfer y Gronfa Datblygu Eiddo
- **45** o gyfraniadau menter at ymchwil a gefnogir
- **4** patent wedi'u cofrestru ar gyfer cynhyrchion
- **£93m** cyfraniad at GYC rhanbarthol

Mae'r prosiect hwn yn cael ei ariannu'n rhannol gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop drwy Lywodraeth Cymru.

# Cerrig milltir a chyflawniadau allweddol



## Cyffredinol

- **Partner dinesig ar Gyfrif Cyflymydd Effaith ar sail Lle Ymchwil ac Arloesi y DU (UKRI) – 'Newid i Adeiladau Sero Net' – gan sicrhau bod ymchwil yn cyd-fynd â'r economi sero net.**
- **Arwain digwyddiad Cefnogi Busnesau yng Nghastell-nedd Port Talbot / Dewch i Gwrdd â'r Fargen Ddinesig, a gynhaliwyd ym Mharc Margam ac a groesawodd dros 75 o fynychwyr.**

### Canolfan Dechnoleg y Bae

- Yn parhau i sicrhau buddsoddiad a thenantiaid y sector preifat i gefnogi swyddi a thwf economaidd.
- Graddfa feddiannaeth ar 75% o'r capasiti a phenawdau telerau i'w llofnodi'n fuan gyda dau gwmni arall, gan gynyddu'r gyfradd i 85%.
- Rhwydwaith gweithgynhyrchu uchel ei werth Catapult wedi meddiannu cyfres o ystafelloedd a fydd yn rhoi cyfle i sefydliadau yng Nghymru gael mynediad at ei rwydwaith ehangach.
- Swyddfa partneriaethau strategol wedi'i sefydlu i'w defnyddio gan brosiectau strategol arloesol Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU i gynyddu'r rhyngweithio â thenantiaid presennol.



### Canolfan Ddiwydiannol Pontio o Garbon De Cymru

- Caniatâd cynllunio wedi'i sicrhau ar gyfer y cyfleuster ar Lan yr Harbwr.
- Dyfarnwyd cyllid ychwanegol o £8.2 miliwn gan Lywodraeth y DU i gefnogi dros 100 o swyddi fel rhan o gronfa Llywodraeth y DU gwerth £80 miliwn ar gyfer Bwrdd Pontio Tata Steel Port Talbot. Gwnaed y cyhoeddiad hwn am gyllid ychwanegol yn ystod ymweliad gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru, Jo Stevens AS, a ddysgodd fwy am y prosiect.
- Caniatâd cynllunio wedi'i gymeradwyo ym mis Chwefror 2025.
- Penawdau'r telerau ar gyfer prydles yn cael eu datblygu i'w cymeradwyo gan Brifysgol Abertawe a Chyngor Castell-nedd Porth Talbot.



### Cyfleuster Cynhyrchu Gweithgynhyrchu Uwch

- Pryniant tir wedi'i sicrhau ar gyfer y Cyfleuster Cynhyrchu Gweithgynhyrchu Uwch i ganiatáu i'r prosiect symud ymlaen.
- Trafodaeth barhaus gyda'r byd academaidd, diwydiant a rhanddeiliaid allweddol i ddatblygu cwmpas a model cyflwyno'r cyfleuster.

## Canolfan Ragoriaeth Sgiliau Sero Net Genedlaethol

- Trafodaeth barhaus gyda'r byd academaidd, diwydiant a rhanddeiliaid allweddol i ddatblygu cwmpas a model cyflwyno'r cyfleuster i sicrhau ei fod yn cyd-fynd ag ecosystem arloesi'r rhanbarth.

## Cronfa Datblygu Eiddo

- Rownd 1 – Dechreuodd y tri phrosiect a gyrhaeddodd y rhestr fer waith ar y safle.
- Rownd 2 – Mae tri phrosiect yn mynd trwy'r broses ymgeisio ar hyn o bryd.
- Mae tanysgrifiadau i'r gronfa bellach yn llawn. Yn 2024/25, sicrhaodd prosiectau'r gronfa £1,037,789.00 o fuddsoddiad preifat a rhagwelir y bydd yn rhagori ar ei darged o £5.5 miliwn erbyn diwedd y prosiect.

## Rhaglen Ysgogiad Hydrogen

- Mae datblygiadau prosiectau hydrogen y sector preifat a'r sector cyhoeddus ar y gweill ar safle Canolfan Hydrogen Prifysgol De Cymru ym Mharc Ynni Baglan, sydd wedi arwain at gyfleoedd pellach i fanteisio i'r eithaf ar ffurfweddiad yr orsaf ail-lenwi hydrogen ar y safle.
- Mae'r brifysgol yn cwblhau'r dull peirianyddol a bydd yn gwahodd tendrau ar gyfer gosod yr electroleiddiwr ychwanegol.
- Archwiliwyd cyfleoedd i weld sut y gall cwmpas technegol prosiect ysgogi H2 a phrosiect Switch to Net Zero Buildings ategu ei gilydd.
- Mae archwiliad pellach o'r dewisiadau o ran cerbydau hydrogen gydag NPT Fleet Management yn ogystal â gweithredwyr fflyd rhanbarthol eraill.

## Prosiect Monitro Ansawdd Aer

- Cynhyrchodd arbenigwyr amgylcheddol Ricardo adroddiad sicrhau ansawdd drafft ar gyfer y rhwydwaith ynghyd ag adroddiad dadansoddi data blwyddyn un. Mae adolygiad o'r canfyddiadau ar y gweill.
- Cwblhawyd gwaith uwchraddio i orsaf fonitro'r Rhwydwaith Trefol a Gwledig Awtomatig (AURN).

## Seilwaith Gwefru Cerbydau Allyriadau Isel

- Dogfen Strategaeth Cerbydau a Seilwaith Dim Allyriadau Castell-nedd Port Talbot wedi'i chymeradwyo gan y cabinet.
- Mae astudiaeth achos yn y Cymoedd sy'n edrych am atebion ar gyfer gwefru cerbydau trydan ar y stryd yn cael ei datblygu.
- Cynhaliwyd man gorffen Rali Cymru Cerbydau Trydan GreenFleet yn ystod Wythnos Hinsawdd Cymru.



# Cerrig milltir allweddol ar gyfer 2025/26

- **Canolfan Dechnoleg y Bae:** Parhau i farchnata'r cyfleuster i ddenu tenantiaid nes bod yr adeilad wedi'i feddiannu'n llawn. Mae tenantiaid ar wahanol gamau o ran llofnodi cytundebau penawdau'r telerau.
- **Canolfan Ddiwydiannol Pontio o Garbon De Cymru:** Disgwylir digwyddiad torri tywarchen a'r gwaith i ddechrau ar y safle yn haf 2025.
- **Cyfleuster Cynhyrchu Gweithgynhyrchu Uwch / Canolfan Ragoriaeth Sgiliau Sero Net Genedlaethol:** Datblygu model cwmpas a gweithrediadau manwl sy'n cyd-fynd â'r ecosystem arloesi ranbarthol.
- **Y Gronfa Datblygu Eiddo:** Cwblhau prosiectau ar gyfer ceisiadau Rownd 1 a phrosiectau Rownd 2 yn cael eu cymeradwyo.
- **Y Prosiect Monitro Ansawdd Aer:** Adroddiad diwedd prosiect gyda monitro parhaus.
- **Rhaglen Ysgogiad Hydrogen:** Datblygu achos busnes ar gyfer cerbydau hydrogen.
- **Seilwaith gwefru cerbydau trydan ysgafn:** Parhau â gwaith cydlynu rhanbarthol, gwneud y mwyaf o gyfleoedd ariannu sy'n gysylltiedig â cherbydau trydan ysgafn, datblygu astudiaeth achos gwefru ar y stryd.

# FFOCWS AR...

## Corryn Biotechnologies yn llogi gofod yng Nghanolfan De3chnoleg y Bae

Ym mis Mehefin 2024, symudodd Corryn Biotechnologies Ltd, cwmni technoleg feddygol a sefydlwyd i helpu gyda chlwyfau cymhleth, i Ganolfan Dechnoleg y Bae. Mae Corryn wedi creu dyfais feddygol, sef gorchudd polymer ar glwyf sy'n cael ei amsugno ac felly nid oes angen ei dynnu. Mae ganddyn nhw gleientiaid yn y DU ac Ewrop eisoes.

Roedd Corryn wedi bod mewn partneriaeth gyda Phrifysgol Abertawe, ond roeddent wedi mynd yn rhy fawr i'w lle yno oherwydd twf cyflym. Fe wnaethon nhw gysylltu â Chyngor Castell-nedd Port Talbot i ddod o hyd i le addas iddyn nhw yn y sir a dewiswyd Canolfan Dechnoleg y Bae, sydd wedi ennill gwobrau, fel y cyfleuster delfrydol oherwydd ei lleoliad cyfleus a'i gofod hyblyg.

I ddechrau, fe wnaethon nhw sefydlu labordy gweithgynhyrchu yn cynnwys swyddfa a labordy ond tyfodd hwn yn gyflym i gynnwys labordy ychwanegol yn ogystal â chyfleuster gweithgynhyrchu ystafell lân o'r radd flaenaf. Maen nhw bellach yn meddiannu 141 metr sgwâr yng Nghanolfan Dechnoleg y Bae. Cefnogir yr ehangu hefyd gan Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU.



> Mae Canolfan Dechnoleg y Bae wedi bod yn allweddol yn nhwf a datblygiad Corryn Biotechnologies, gan gynnig gofod gwych a chefnogaeth i ddatblygu ein technoleg feddygol arloesol yma yn y De.

**Dywedodd Luke Burke**
**Cyd-sylfaenydd a Chyfarwyddwr**
**Corryn Biotechnologies Ltd**

# Ardal Ddigidol Dinas Abertawe a'r Glannau

Mae'r prosiect hwn yn canolbwyntio ar ysgogi twf economaidd yn Abertawe drwy bum elfen allweddol – Arena Cymdeithas Adeiladu Abertawe, datblygu gwestai a lle i fusnesau dyfu yn 71/72 Ffordd y Brenin, y Matrics Arloesi a'r Rhodfa Arloesi. **Dysgwch fwy am Lannau Abertawe.**

Sganiwch os gwelwch yn dda



| | |
|---|---|
| **£175m** | Buddsoddiad |
| **£50m** | Y Fargen Ddinesig |
| **£91.1m** | Sector Cyhoeddus |
| **£33.9m** | Sector Preifat |

**Cyflymu'r Economi**

Bydd y rhaglen yn Abertawe yn creu:

- **1,281** o swyddi
- **10,684m²** ar gyfer busnesau digidol
- Dros **50** o gyfleoedd a gofodau i fusnesau newydd gan raddedigion
- Dros **10,000** o wythnosau hyfforddi ar y gwaith adeiladu yn Arena Cymdeithas Adeiladu Abertawe, 71/72 Ffordd y Brenin a'r Matrics Arloesi
- **£669.8m** cyfraniad at GYC rhanbarthol

Cyngor Abertawe Swansea Council

Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant University of Wales Trinity Saint David

Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop European Regional Development Fund

Mae'r prosiect hwn yn cael ei ariannu'n rhannol gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop drwy Lywodraeth Cymru.

# Cerrig milltir a chyflawniadau allweddol

## Arena a Gwesty Cymdeithas Adeiladu Abertawe

- Mae bron i 750,000 o ymwelwyr wedi bod yma ers iddo agor ym mis Mawrth 2022 ac mae uchafbwyntiau'r 12 mis diwethaf yn cynnwys:
    - Perfformiadau gan Rhod Gilbert, Jimmy Carr, Sarah Millican, Cerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC, Bowling For Soup a Paul Smith a werthodd bob tocyn.
    - Digwyddiadau, gan gynnwys Gwobrau Plant Cymru, digwyddiad codi arian Sioe Fawr Nadolig Maggie a chynhadledd "It's Your Swansea" 4theRegion am y bedwaredd flwyddyn yn olynol.
    - 17 seremoni raddio, gan gynnwys Prifysgol Abertawe a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, gyda thua 22,500 o fynychwyr.
    - Gweithgareddau dysgu creadigol (gweithdai a theithiau) ar gyfer 2,500 o fynychwyr a digwyddiadau dysgu creadigol (sesiynau siop goffi a sesiynau prif lwyfan wedi'u ffrydio'n fyw) ar gyfer 3,000 o fynychwyr.
    - Dros filiwn o ymweliadau â thudalen fu'n ffrydio perfformiadau acwstig yn fyw o'r siop goffi, yn cynnwys artistiaid sy'n dod i'r amlwg yn y De.
- Cymdeithas Adeiladu Abertawe yn dod yn bartner â hawl i roi eu henw ar yr arena, a'r enw'n cael ei newid yn swyddogol i Arena Cymdeithas Adeiladu Abertawe.
- Peter Lynn & Partners yn llofnodi fel noddwr dysgu creadigol i gryfhau cangen allgymorth graidd y busnes.
- Dewisiadau o ran datblygwr y gwesty'n cael eu hadolygu ar ôl i chwe chwmni fynegi diddordeb, a phenawdau'r telerau'n cael eu negodi gyda'r datblygwr a ffafriwyd.

## 71/72 Ffordd y Brenin

- Cwblhaodd Bouygues UK y gwaith adeiladu'n llawn, gan drosglwyddo'n ffurfiol yn ôl i Gyngor Abertawe. Dathlwyd y trosglwyddiad mewn digwyddiad. **Darllen mwy.**
- Cyhoeddwyd dau denant – TUI ac IWG – a gymerodd hyd at 27,000 troedfedd sgwâr o'r adeilad.
- Mae mwyafrif y gofod swyddfa sy'n weddill dan gynnig ac mae'r cyngor mewn trafodaethau pellach gyda sawl tenant arall, rhai ohonynt yn newydd i Abertawe.
- Mae trafodaethau'n parhau gyda meddiannydd ar gyfer yr unedau manwerthu / bwyd a diod sy'n wynebu Ffordd y Brenin.
- Mae'r gwaith gosod mewnol wedi mynd rhagddo ac mae arwyddion eisoes ar yr adeilad.
- Penodwyd Savills yn asiantau rheoli ar gyfer y safle ac mae symudiadau'n mynd rhagddynt.
- Cwblhaodd Vodafone y gwaith o osod pibellau o Fae Copr i Ffordd y Brenin a chwblhawyd y cysylltiadau ffeibr.

## Y Matrics Arloesi

- Digwyddiad dathlu i nodi agoriad swyddogol yr adeilad. **Darllen mwy.**
- Adeilad wedi'i feddiannu'n llawn yn amodol ar gontractau cyfreithiol terfynol.
- Bwrdd rheoli tenantiaid wedi'i sefydlu.
- Tîm INSPIRE y brifysgol yn adleoli i'r adeilad i gefnogi datblygu partneriaethau priodol a pharhaol gyda thenantiaid.

## Y Rhodfa Arloesi

- Trafodaethau parhaus gyda'r brifysgol a Chyngor Abertawe ynghylch datblygu model cyflwyno sy'n briodol i'r farchnad.



# Cerrig milltir allweddol ar gyfer 2025/26

## Arena a gwesty Abertawe

- Parhau i gynnal amserlen o raglenni gyda dros 200 o ddigwyddiadau yn ystod y flwyddyn, sy'n cynnwys Greg Davies, y Manic Street Preachers, Paw Patrol Live, Jason Manford a Wet Wet Wet.
- Disgwylir y bydd miliwn o bobl wedi ymweld â'r safle yn ystod y flwyddyn.
- Penodi partner datblygu'r gwesty a gweithio tuag at gynllunio a dylunio.
- Cwblhau cytundeb penawdau'r telerau gyda datblygwr y gwesty.
- Cwblhau'r cais cynllunio ar gyfer y gwesty.

## 71/72 Ffordd y Brenin

- Cwblhau cytundebau tenantiaeth i brydlesu'r llawr cyntaf, yr ail lawr a'r pedwerydd llawr.
- Cwblhau gwaith gosod mewnol i'r tenantiaid a'u croesawu i'r adeilad.
- Seremoni agoriadol swyddogol, gan ddod â phawb a oedd yn rhan o'r prosiect ynghyd i ddathlu ei lwyddiant.
- Cwblhau gwaith ar ardaloedd cyhoeddus yr adeilad, gan gynnwys yr ardd allanol a enwir ar ôl Mowbray, y cyn-reolwr prosiect.



## Y Matrics Arloesi

- Parhau i farchnata'r cyfleuster i gael y mwyaf posib o denantiaid a sicrhau bod model gweithredu'r adeilad yn cael ei alluogi i hyrwyddo partneriaethau tenantiaid parhaol a chynaliadwy â'r brifysgol.
- Parhau i farchnata'r cyfleuster i sicrhau tenantiaid nes bod yr adeilad wedi'i feddiannu'n llawn.

## Y Rhodfa Arloesi

- Parhau i drafod gyda phartneriaid ynghylch datblygu model cyflwyno sy'n briodol i'r farchnad.



# FFOCWS AR...

## Agoriad swyddogol y Matrics Arloesi

Ym mis Mawrth 2025, agorodd Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant y Matrics Arloesi yn swyddogol gyda dathliad a nododd gwblhau'r cyfleuster arloesol 2,200 metr sgwâr yn SA1 y Glannau, Abertawe. Mynychwyd y digwyddiad gan gynrychiolwyr o lywodraethau Cymru a'r DU, arweinwyr dinesig a phartneriaid diwydiant, gan gynnwys Rebecca Evans AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio, y Fonesig Nia Griffiths DBE AS, Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol yn Swyddfa Cymru, a'r Cynghorydd Rob Stewart, Arweinydd Cyngor Abertawe.

Datblygwyd yr adeilad gan Kier Construction, a sicrhaodd gontractau gwerth £6 miliwn ar gyfer busnesau yng Nghymru yn ystod y broses adeiladu.

Wedi'i gynllunio i ysgogi arloesedd digidol, entrepreneuriaeth a chydweithio â diwydiant, mae'r matrics i'w ganfod ochr yn ochr ag adeiladau'r IQ a'r Fforwm presennol yn y brifysgol. Mae eisoes wedi denu naw busnes i'w fannau gweithio o ansawdd uchel, gan greu clwstwr dynamig gyda'r fantais ychwanegol o fynediad uniongyrchol at arbenigedd ac ymchwil Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant.

"Rydym am i Gymru fod ar flaen y gad o ran technolegau newydd arloesol sy'n ysgogi newid ystyrlon yn y gymdeithas ac yn dod â budd i bobl yn eu bywydau bob dydd. Bydd y datblygiad cyffrous hwn yn meithrin ecosystem arloesedd digidol a menter o'r radd flaenaf a all fod yn gatalydd i dwf economaidd a ffyniant. Mae'n dyst i'r rhagoriaeth y gall gweithio mewn partneriaeth ei chyflawni ar gyfer economïau rhanbarthol yng Nghymru ac mae'n gam arall ymlaen ar ein taith tuag at ddyfodol cryfach, tecach a gwyrddach."

**Rebecca Evans,**
**Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio**

"Mae'n wych bod cyllid Llywodraeth y DU, drwy Fargen Ddinesig Bae Abertawe, wedi cyfrannu at adeiladu'r cyfleuster gwych hwn. Ein prif genhadaeth, fel y nodir yn ein Cynllun er Newid, yw twf economaidd. Bydd y Matrics Arloesi yn cynnig lle i fusnesau sefydledig dyfu a busnesau newydd ddechrau, gan greu swyddi yn niwydiannau uwch-dechnoleg y dyfodol."

**Dywedodd y Fonesig Nia Griffith AS**



# FFOCWS AR...

## Trosglwyddo swyddogol a chyhoeddi'r tenantiaid cyntaf ar gyfer 71/72 Ffordd y Brenin

Ym mis Chwefror 2025, trosglwyddodd Bouygues UK, y contractwr a oedd yn adeiladu datblygiad Ffordd y Brenin, y safle yn ôl yn swyddogol i Gyngor Abertawe cyn y gwaith gosod. Cynhaliwyd digwyddiad trosglwyddo a fynychwyd gan gynrychiolwyr Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, cynghorwyr lleol, a datblygwyr. Rhoddodd y Cynghorydd Rob Stewart, Arweinydd Cyngor Abertawe, ac aelodau cabinet y cyngor groeso i Rebecca Evans AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio, a Torsten Bell AS, Aelod Seneddol Gorllewin Abertawe.

Cyhoeddwyd enwau'r ddau denant cyntaf yn ystod y digwyddiad, sef International Workplace Group (IWG) Plc a TUI, y ddau'n cymryd dros 2,500 metr sgwâr o'r adeilad.

Bydd IWG, darparwr gweithleoedd hyblyg, yn defnyddio 1,850 metr sgwâr yn yr adeilad, ac unwaith y bydd ar waith mae'n bwriadu rhentu lle i fusnesau.

Mae'r cwmni teithio a hamdden TUI hefyd yn cymryd tua 650 metr sgwâr. Ar hyn o bryd yn Nhŷ Alexandra, bydd gweithwyr canolfan gyswllt TUI yn symud i'r datblygiad newydd, gan helpu i gadw swyddi yng nghanol Abertawe.

Mae mwyafrif y lle sy'n weddill hefyd dan gynnig, gyda thrafodaethau'n parhau gyda nifer o denantiaid a fydd yn newydd i Abertawe.

"Rydym yn llawn cyffro dros weithwyr ein canolfan gyswllt yn Abertawe ynglŷn â'r symud. Mae adeilad 71/72 Ffordd y Brenin wir yn anhygoel ac mae'n cyd-fynd â'n hagwedd ni tuag at gynaliadwyedd. Mae pob agwedd ar y gofod, y cyfleusterau a'r cynllun yn yr adeilad wedi'i chynllunio'n fanwl i greu amgylchedd gwaith eithriadol sy'n cefnogi llesiant ein timau."

**Dywedodd Neil Swanson**
**Rheolwr Gyfarwyddwr TUI UK&I**

"Mae IWG yn edrych ymlaen at gydweithio'n agos â Chyngor Abertawe i ddarparu gweithle o'r radd flaenaf ar gyfer cymuned fusnes Abertawe.Bydd brand 'Spaces' IWG yn 71-72 Ffordd y Brenin yn ased anhygoel i fusnesau o bob maint yn y ddinas, gan gynnig cyfleusterau o'r radd flaenaf ar garreg eu drws yn ogystal â mynediad at rwydwaith byd-eang o filoedd o fannau gwaith ledled y byd."

**Dywedodd Wayne Berger,**
**Prif Swyddog Gweithredol IWG yn y DU**



# Yr Egin

Mae Canolfan S4C Yr Egin yn glwstwr digidol a chreadigol yng Nghaerfyrddin. Mae'r ganolfan eiconig yn cynnwys awditoriwm, cysylltedd cyflym iawn, swyddfeydd a mannau gweithio hyblyg o'r radd flaenaf ynghyd â chyfleusterau ôl-gynhyrchu i weithwyr proffesiynol a rhaglen amrywiol o hyfforddiant a gweithgareddau cymunedol.
**Dysgwch fwy am Yr Egin.**

Sganiwch os gwelwch yn dda




| | |
|---|---|
| **£25.2m** | Buddsoddiad |
| **£5m** | Y Fargen Ddinesig |
| **£18.7m** | Sector Cyhoeddus |
| **£1.5m** | Sector Preifat |

**Cyflymu'r Economi**

Bydd y prosiect hwn yn Sir Gaerfyrddin yn darparu:

- **427** o swyddi
- **363m²** o le gweithio
- **150** o gyfleoedd sgiliau a hyfforddiant
- **167** o gyfleoedd cyflogaeth yn y gweithle adeiladu
- **£89.5m** cyfraniad at GYC rhanbarthol

Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant University of Wales Trinity Saint David

Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council

# Cerrig milltir a chyflawniadau allweddol




### Cam 1:

- Dros 50,000 o fynychwyr i berfformiadau, gweithdai, dosbarthiadau meistr, y sinema a digwyddiadau byw ers agor chwe blynedd yn ôl.
- Y gofod swyddfa yn cael ei ddefnyddio'n llawn a'r tenantiaid yn cynnwys Atebol, Carlam, Moilin, Rural Office, S4C, Stiwdiobox a Theatr Cymru.
- Enillwyr Gwobr Gyrfa Cymru am Hyrwyddwr Gorau'r Gymraeg yn y Gweithle am eu cyfraniad rhagorol.
- Mae'r rhaglenni a wnaed ac a ddarlledwyd o'r Egin yn cynnwys Busnes Bwyd (Captain Jac), Only Foals and Horses (Carlam), BBC News at Six a BBC News at Ten (BBC), Jonathan (Afanti) ac S4C @ 40 (Orchard).
- Cyfres o ddigwyddiadau rhwydwaith Gorllewin Cymru Greadigol, rhaglen ymgysylltu, a hyrwyddo'r diwydiannau creadigol a ddatblygwyd ar draws pum sir.
- Cyflwyno rhaglen allgymorth gymunedol a oedd yn cynnwys clybiau creadigol i blant a phobl ifanc a'r platfform digidol Shwmae Sir Gâr (cyrhaeddiad digidol o 185,000+) yn llwyddiannus.
- Arddangos ffilmiau annibynnol a ffilmiau Gwnaed yng Nghymru mewn cydweithrediad â Gŵyl Ffilm WOW, gŵyl animeiddio Caerdydd a Gŵyl Ffilm Iris, yn rheolaidd.

### Cam 2:

- Parhaodd Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant i ymgysylltu â'r awdurdod lleol i sicrhau bod y model cyflwyno ar gyfer Egin 2 yn berthnasol i anghenion marchnad y sector creadigolmarketplace.

# Cerrig milltir allweddol ar gyfer 2025/26

- Cynnydd ar gynllunio Cam 2.

### Cam 1:

- Datblygu ymhellach y gymuned gynyddol o bobl sy'n rhannu desgiau poeth, sydd ar hyn o bryd yn cynnwys Asiantaeth Libera, Cwmpas, Trywydd a gweithwyr llawrydd.
- Parhau i fod yn gyrchfan o ansawdd uchel ac yn lle i gynnal cynadleddau a chyfarfodydd, gyda mwy o ddefnydd o gyfleusterau ac arbenigedd mewnol sy'n darparu ffrydio byw o ansawdd uchel.
- Parhau i dyfu'r ddarpariaeth sinema annibynnol ar gyfer cynulleidfaoedd yn ein hardal gyda chefnogaeth Canolfan Ffilm Cymru.
- Datblygu rhwydwaith Gorllewin Cymru Greadigol ymhellach ym mhob un o'r pum sir (Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro, Abertawe, Castell-nedd Port Talbot a Cheredigion) gyda chyfres o ddigwyddiadau, rhaglen ymgysylltu, a hyrwyddo'r diwydiannau creadigol yn y rhanbarth.
- Parhau i ymgysylltu ag ysgolion a cholegau addysg bellach i ddarparu gweithdai a phrofiadau sy'n cyfoethogi'r Cwricwlwm i Gymru ac sy'n gwella dealltwriaeth o'r llwybrau gyrfa sydd ar gael yn y diwydiannau creadigol.

# FFOCWS AR...

> Cyn gynted ag y cefais fy lleoli yn Yr Egin, sylweddolais fy mod yn cwrdd â busnesau eraill, rhai ohonyn nhw'n gorfforaethol a rhai yn gwmnïau cynhyrchu, dim ond trwy fod yng nghanol pobl a dod ar eu traws yn naturiol. Os ydych chi'n trefnu cyfarfodydd dros yr e-bost, gallwch chi fod yn aros am wythnosau neu fisoedd. Yma gallwch chi daro ar gomisiynwyr a dweud 'Helô'. Gall hyn arwain at sgwrs sy'n troi'n gyfle. Mae cymuned yma. Does wybod pwy sy'n dod i mewn ac mae sgyrsiau'n digwydd yn naturiol.
>
> Mae'r Egin wedi llwyddo i ddod â'r gymuned i mewn. Mae wedi llwyddo i fod yn agored ac yn hygyrch, gan agor y drws i bobl a allai yn y gorffennol fod wedi teimlo nad oedd y diwydiant cyfryngau ar eu cyfer nhw.
>
> **Euros Morgan**
> **Cyfarwyddwr Carlam**

## Tenantiaid presennol: Carlam

Mae Carlam yn gwmni cynhyrchu a sefydlwyd yn 2017 gan Euros Morgan, a raddiodd o Brifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant.

Mae'r cwmni'n cyflogi 15 o staff a rhyddfreelanceriaid i gynhyrchu cynnwys o'r Yr Egin. Mae'n rhannu'r egwyddor o feithrin talent a rhannu straeon o'r gwreiddiau.

Mae wedi cael ei chydnabod am fod yn un o'r cwmnïau cynhyrchu annibynnol sy'n tyfu'n gyflymaf yng Nghymru.

Mae Carlam yn cynhyrchu cynnwys ar gyfer S4C, BBC One a BBC Radio Cymru yn ogystal â nifer o gwmniau corfforaethol a chyrff elusennol ledled y byd.



# FFOCWS AR...

## Cwmni pensaernïaeth Rural Office

Mae Rural Office yn gwmni pensaernïaeth, strategaeth ac ymchwil arobryn sy'n cyflogi 11 o weithwyr. Datblygodd y cwmni'r dyluniad cysyniadol ar gyfer adeilad Yr Egin a daeth yn denant yn 2022, gan feddiannu un o'r unedau masnachol mwy.

Mae ei ofod swyddfa yn cynnig amgylchedd creadigol i'w staff, ac mae'n ystyried hynny'n bwysig i'r math o waith mae'n ei wneud. Nid yw gweithio o bell yn ddewis hyfyw mewn gwirionedd i'r busnes creadigol hwn ac felly mae cael amgylchedd gwaith modern a phroffesiynol yn bwysig iawn iddo.

Mae Rural Office yn teimlo bod ei staff yn cael eu cefnogi wrth fod yn Yr Egin ac mae cael bod mewn amgylchedd creadigol gyda chwmnïau o'r un anian yn gwneud gwahaniaeth mawr yng ngallu'r cwmni i gadw staff.

Mae'r gofodau a rennir, gan gynnwys mannau cyfarfod cymunedol a'r caffi, yn golygu bod busnesau sy'n gweithio mewn gwahanol ofodau yn aml yn cael sgyrsiau anffurfiol â'i gilydd, a'r rheiny weithiau'n arwain at gyfnewid gwybodaeth, cyngor a chysylltiadau sy'n fuddiol i'r ddwy ochr na fyddai'n cael eu rhannu fel arall.

> Mae yna egni creadigol go iawn yn y lle sydd wir yn ein helpu ni a'n staff i fod yn fwy creadigol ein hunain. Mae'r ganolfan yn cynnig awyrgylch colegaidd i denantiaid, sy'n creu ymdeimlad o hunaniaeth, fel eich bod chi fel tenant yn teimlo eich bod chi'n rhan o rywbeth mwy na'ch busnes eich hun. Mae'r amgylchedd hwn hefyd yn arwain at lefel naturiol o ymgysylltu a rhannu gwybodaeth rhwng tenantiaid.
>
> **Dywedodd Niall Maxwell**
> **Sylfaenydd Rural Office**



# STORI MARTHA

## Prentis Cyfryngau Cymdeithasol a Marchnata Prosiect Cartrefi yn Orsafoedd Pŵer

Ar ôl astudio am radd mewn Cyfryngau a Newyddiaduraeth ym Mhrifysgol Caerdydd am dair blynedd, ymunodd Martha â phrosiect Cartrefi yn Orsafoedd Pŵer fel Prentis Cyfryngau Cymdeithasol a Marchnata am ddwy flynedd. Mae ei rôl yn cynnwys helpu gyda'r cyfryngau cymdeithasol a marchnata ar gyfer y prosiect, sy'n cynnwys creu graffigwaith, datganiadau i'r wasg, trefnu a mynychu digwyddiadau, a diweddaru sianeli cyfryngau cymdeithasol.

Mae Martha'n gobeithio, drwy'r cyfle prentisiaeth hwn, y bydd hi'n datblygu sgiliau hanfodol a phrofiadau gwych i ennill dealltwriaeth o'r sector marchnata a sut i greu ymgyrchoedd marchnata llwyddiannus ac effeithiol. Mae hi wedi dechrau cyflawni hyn drwy allu gweithio gydag ystod eang o bobl o fewn y diwydiant ac mewn sectorau cyflenwol eraill.



"Byddwn yn annog unrhyw un sy'n ystyried gwneud cais am gyfle prentisiaeth i wneud hynny, ac ymchwilio i'r gwahanol sectorau sydd o ddiddordeb i chi cyn cyflwyno cais. Mae cynifer o brentisiaethau gwych o gwmpas sy'n eich galluogi i weithio'n uniongyrchol gyda phobl mewn sectorau sydd o ddiddordeb i chi, a byddwch chi'n derbyn profiad ymarferol wrth gael eich talu! Mae prentisiaeth yn ffordd wych o ymuno â'r gweithlu gan eich bod yn sicr o gael rhwydwaith cymorth da o'ch cwmpas a fydd yn dysgu popeth sydd angen i chi ei wybod i chi."

@SBCityDeal

BDBA@sirgar.gov.uk

bargenddinesigbaeabertawe.cymru

# Busnesau wrth galon seilwaith Bargen Ddinesig Bae Abertawe

Hyd yn hyn, mae pum prosiect seilwaith allweddol Bargen Ddinesig Bae Abertawe wedi'u cwblhau ac maent ar waith ar draws y rhanbarth, gan ddarparu lle i dros 40 o gwmnïau. Y rhain yw'r Egin, Canolfan Dechnoleg y Bae, Arena Cymdeithas Adeiladu Abertawe, y Matrics Arloesi a Rhandai Siediau Awyrennau Ardal Forol Doc Penfro.

Mae 71/72 Ffordd y Brenin a Phentre Awel ill dau i fod i agor yn 2025/26 ac maent eisoes wedi dechrau denu tenantiaid i'r lleoedd cyn eu hagoriad swyddogol.

Mae tenantiaid ar draws y portffolio yn cynnwys:

## Canolfan Dechnoleg y Bae

- **AilArian** – Hwyluso ailgylchu gwastraff electronig heb ddefnyddio cemegau gwenwynig iawn
- **Corryn Biotechnologies Ltd** – Cwmni technoleg feddygol a sefydlwyd i helpu gyda chlwyfau cymhleth. **Darllen mwy am Corryn Biotechnologies.**
- **Health Tech Services Group Ltd** – Arloeswr blaenllaw yn y diwydiant gofal iechyd. Mae'n addasu technolegau arloesol fel cydnabyddiaeth wyneb, deallusrwydd artiffisial a dysgu peirianyddol i ddarparu atebion cynhwysfawr ar gyfer diogelu oedolion agored i niwed.
- **High Value Manufacturing Catapult** – Rhan o ganolfannau ymchwil ac arloesi diwydiannol rhwydwaith Catapult Innovate UK sy'n cysylltu ymchwil, busnes a'r llywodraeth i ddatblygu technolegau a all helpu i gyflawni nodau digidol a chynaliadwyedd.
- **Iyris Technology** – Cwmni technoleg hinsawdd amaethyddol arloesol sy'n datblygu technolegau arloesol i alluogi ffermio masnachol cynaliadwy mewn hinsoddau poeth ym mhedwar ban byd.
- **McCann & Partners Ltd** – Arbenigwyr mewn darparu ystod lawn o wasanaethau adeiladu sy'n gysylltiedig â systemau peirianneg fecanyddol, drydanol ac iechyd cyhoeddus.
- **Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU Castell-nedd Port Talbot** – Swyddfa Cyngor Castell-nedd Port Talbot ar gyfer staff Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU, sy'n rhoi gwybodaeth a chymorth i fusnesau gyda cheisiadau am gyllid.
- **Opergy Energy Ltd** – Yn darparu gwasanaethau ac atebion arbenigol ar draws y sectorau ynni, seilwaith, peirianneg, trafnidiaeth, digidol a thechnoleg carbon isel.
- **Promaterial Ltd** – Yn darparu magnedau perfformiad uchel a gyflenwir yn y DU gyda deunyddiau wedi'u hailgylchu.
- **SolutionsDX Ltd** – Yn darparu atebion diagnostig a digidol i wella canfod clefydau heintus fel twbercwlosis ac HIV yn gynnar a'u rheoli.
- **SWS Certification Services Ltd** – Dylunwyr, peirianwyr ac arbenigwyr ardystio medrus sy'n cyflawni rhagoriaeth mewn cymeradwyo elfennau mewnol awyrennau.
- **TrueCommerce Netalogue** – Yn helpu busnesau i wella perfformiad y gadwyn gyflenwi er mwyn llywio canlyniadau busnes gwell.
- **Winfield Energy UK** – Arbenigwyr mewn prosiectau ynni solar, gan gynnwys ffermydd solar ar y ddaear, araeau solar ar doeau diwydiannol a masnachol, a chanopïau solar mewn meysydd parcio.



## Yr Egin

- **S4C** – Prif denant yn Yr Egin. Sianel deledu genedlaethol Cymru, yn darlledu dros 100 o oriau o raglenni Cymraeg yr wythnos.
- **Cyngor Celfyddydau Cymru** – Gweithio gydag artistiaid i gyflwyno ac arddangos y celfyddydau er mwyn cyrraedd cynifer o bobl â phosibl. Maent hefyd yn ymchwilio i ffyrdd o ddiogelu a chynnal gweithgareddau creadigol yng Nghymru.
- **Asset Finance Solutions** – Arbenigwr ym maes cyllid corfforaethol / cyllid asedau. Yn gweithio ar draws pob sector, gan arbenigo yn y meysydd proffesiynol, amaethyddol ac ynni adnewyddadwy.
- **Atebol** – Cwmni cyhoeddi a digidol aml-gyfrwng arobryn sy'n cyhoeddi teitlau arloesol a dychmygus i bobl o bob oed. Yn darparu gwasanaethau cyfieithu, golygu a phrawfddarllen proffesiynol.
- **Captain Jac** – Cwmni cynhyrchu annibynnol sy'n rhagori wrth gynhyrchu rhaglenni dogfen a rhaglenni ffeithiol o gyfresi pryf ar y pared i raglenni dogfen hanesyddol ar gyfer amrywiaeth o ddarlledwyr, gan gynnwys BBC Four, BBC Three, S4C, Discovery Channel ac Animal Planet, yn ogystal â chreu cynnwys fideo ar gyfer cleientiaid corfforaethol.
- **Carlam Ltd** – Cwmni cynhyrchu aml-sgiliau ac uchelgeisiol sy'n awyddus i addasu i heriau newidiol y diwydiannau teledu a chyfryngau.
- **Moilin** – Datblygu atebion digidol hynod greadigol gan ddefnyddio technolegau arloesol. Yn bennaf yn datblygu atebion ar gyfer y sectorau twristiaeth, digwyddiadau, cyfryngau ac addysg gan ddefnyddio'r technolegau ymdrochi diweddaraf i nodi ffyrdd newydd o ddysgu ac adrodd straeon.
- **Optimwm** – Cwmni cynhyrchu digidol sy'n darparu gwasanaethau arbenigol sy'n creu cynnwys digidol ar gyfer amrywiaeth o lwyfannau megis profiadau 360 rhithwir, ffilmiau hyrwyddo, adnoddau dysgu ac apiau.
- **Police Pass** – Darparwr e-ddysgu, hyfforddiant wyneb yn wyneb a gwerslyfrau i helpu arolygwyr a rhingylliaid i lwyddo yn eu harholiadau.
- **Rural Office** – Practis arobryn sydd ag enw da am ddarparu pensaernïaeth ystyriol, meddwl strategol ac ymchwil. Buddsoddi mewn ymchwil i'r amgylchedd adeiledig gyda diddordeb penodol yng nghyd-destun gwledig Cymru.
- **Stiwdio Box** – Yn cynnig gwasanaethau dwyieithog sy'n ysbrydoli, yn ymgysylltu ac yn addysgu cynulleidfaoedd i ddefnyddio'r dechnoleg ddigidol a darlledu ddiweddaraf. Yn arbenigo mewn cynhyrchu ar gyfer radio, podlediadau, cynnal digwyddiadau, cynnwys digidol, trosleisio a thalent, llyfrau sain a gweithdai ar-lein.
- **Stiwdio Steff** – Mae gan Steffan dros 20 mlynedd o brofiad o weithio yn y diwydiant cyfryngau, gan gynnwys gweithio ar bob genre, o raglenni a darllediadau cerddoriaeth fyw i raglenni dogfen a rhaglenni plant
- **Theatr Genedlaethol Cymru** – Cwmni theatr teithiol cenedlaethol sy'n rhoi Cymru a'i phobl ar y map, gan sicrhau dyfodol disglair i'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru.
- **Trywydd** – Un o gwmnïau cyfieithu blaenllaw Cymru sy'n cynnwys cyfieithu ysgrifenedig, golygu a phrawfddarllen, cyfieithu ar y pryd, a llogi offer.
- **Twrw Ltd** – Gweithgareddau recordio sain a chyhoeddi cerddoriaeth.
- **Urdd Gobaith Cymru** – Corff ieuenctid gwirfoddol cenedlaethol gyda dros 55,000 o aelodau. Yn darparu cyfleoedd i blant a phobl ifanc fwynhau profiadau trwy gyfrwng y Gymraeg.



## Arena Cymdeithas Adeiladu Abertawe

- **Ambassador Theatre Group (ATG)** – Gweithredwr adloniant, yn cyflwyno adloniant o'r radd flaenaf, gan gynnwys cerddorion, digrifwyr a sioeau celfyddydau perfformio, i'r arena.
- **The Green Room Bar and Kitchen** – Gweithredwr bwyd a diod sy'n gweini brecwast, brecinio a chinio yn ystod y dydd a lleoliad cyn gig yn y nos. Mae cynaliadwyedd wrth wraidd ei ethos ac mae cynnyrch yn cael ei gaffael yn lleol.

## Y Matrics Arloesi

- **ATiC** – Darparwr sy'n defnyddio'r cyfleusterau gwerthuso profiad y defnyddiwr a defnyddioldeb diweddaraf i gefnogi prototeipio a datblygiad cyflym technolegau iechyd newydd.
- **BroadReach Integrity** – Gwneuthurwr sganwyr canfod cyrydiad arloesol.
- **Forever Mortal** – Platfform arloesol arobryn a adeiladwyd i gadw straeon ac atgofion teuluol ar-lein ar ôl i unigolyn farw.
- **Ffilmiau Gŵyr** – Menter adrodd straeon nid er elw sy'n hyrwyddo celfyddydau a diwylliant Cymru.
- **IDNS** – Darparwr atebion digidol yn trawsnewid cydweithio ac ymgysylltu.
- **Kaydiar Medical** – Cwmni meddygol newydd sy'n datblygu technoleg orthotig ar gyfer atal clwyfau.
- **Purus** – Darparwr gwasanaethau morwrol sy'n cefnogi ynni gwynt ar y môr ac ynni carbon isel.
- **Rockfield** – Cwmni technoleg o'r radd flaenaf yn darparu systemau efelychu rhifiadol arloesol ynghyd â'u cymwysiadau diwydiannol.
- **Visit Digital** – Arbenigwyr mewn harneisio pŵer data busnes, gan roi cipolwg ymarferol a strategaethau wedi'u teilwra i gleientiaid sy'n galluogi gwneud penderfyniadau cyflymach a mwy gwybodus.






@SBCityDeal

BDBA@sirgar.gov.uk

bargenddinesigbaeabertawe.cymru

# Strwythur Llywodraethu

Mae Bargen Ddinesig Bae Abertawe yn un o bedair Bargen Ddinesig a Thwf yng Nghymru sy'n cael eu goruchwylio gan Fwrdd Gweithredu Bargeinion Dinesig a Thwf Cymru. Bwrdd ar y cyd rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yw hwn sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am y Bargeinion Dinesig a Thwf yng Nghymru.

Mae gan Fargen Ddinesig Bae Abertawe strwythur llywodraethu cadarn ar waith i sicrhau bod ei phortffolio'n cael ei reoli mewn modd agored, tryloyw ac effeithiol. Dysgwch fwy am y strwythur llywodraethu.

**Dysgwch fwy am Strwythur Llywodraethu.**



> “Mae cynnydd da wedi'i wneud ar draws portffolio Bargen Ddinesig Bae Abertawe ac mae strwythurau llywodraethu ar waith ac yn gadarn i lywio cynnydd a heriau y mae partneriaid cyflawni yn eu hwynebu. Mae cydlynu a chyfathrebu yn parhau i fod yn flaenoriaeth uchel, lle byddwn yn parhau i weithio gyda'n holl bartneriaid a'n rhanddeiliaid ehangach i sicrhau cymaint o gyfleoedd ag y bo modd i Dde-orllewin Cymru a Bargen Ddinesig Bae Abertawe.”
>
> **Jonathan Burnes, Cyfarwyddwr Portffolio Bargen Ddinesig Bae Abertawe**

# Tîm Swyddfa Rheoli'r Portffolio (PoMO)

Mae Swyddfa Rheoli'r Portffolio yn gyfrifol am redeg y portffolio o ddydd i ddydd ac mae mewn cysylltiad rheolaidd â thimau'r Fargen Ddinesig ac aelodau'r bwrdd.

Cefnogir y Fargen Ddinesig hefyd gan Swyddog Adran 151 Cyngor Sir Caerfyrddin a Swyddog Monitro Cyngor Abertawe fel rhan o swyddogaethau statudol y portffolio.

**Dysgwch fwy am dîm y Fargen Ddinesig.**

# Diweddariad Ariannol

Amcangyfrifir bod safle buddsoddi cyffredinol y portffolio £1.374 biliwn dros ei gylch oes 15 mlynedd, fel y crynhoir isod. Cyfanswm buddsoddiad Bargen Ddinesig Bae Abertawe o bob ffynhonnell oedd £536.68 miliwn, ac roedd £132.86 miliwn ohono yn fuddsoddiad sector preifat ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2024/25.

Mae'r hinsawdd economaidd yn ystod y cyfnodau adeiladu a gweithredu yn parhau i gyflwyno heriau o ran cyflawni'r portffolio. Mae sawl ffactor macro-economaidd, gan gynnwys argaeledd adnoddau a recriwtio, prisiau ynni, costau adeiladu, pwysau chwyddiant, pandemig COVID, a'r rhyfel yn Wcráin, wedi arwain at amrywiad cyflenwi a phwysau cost cynyddol dros y pum mlynedd diwethaf.

Er gwaethaf yr heriau hyn, mae pob prosiect a rhaglen yn symud ymlaen trwy'r broses gyflawni ac mae pob partner wedi ymrwymo'n llawn i gyflawni ei fentrau o dan Fargen Ddinesig Bae Abertawe.

Yn y flwyddyn ariannol 2024/25, buddsoddodd Bargen Ddinesig Bae Abertawe £98.25 miliwn mewn cynllunio, caffael, adeiladu a gweithrediadau ar draws y rhan fwyaf o naw prosiect a rhaglen y portffolio. Bydd buddsoddiadau mawr pellach drwy waith caffael ac adeiladu yn digwydd rhwng 2025 a 2029.

Mae Swyddfa Rheoli Portffolios Bargen Ddinesig Bae Abertawe yn parhau i fonitro, lliniaru a datrys risgiau a phroblemau'n agos, a chyfathrebu proffiliau cyflawni ac ariannol â'r holl randdeiliaid. Mae hyn yn helpu i benderfynu ar yr effaith y mae'r hinsawdd macro-economaidd yn ei chael ar gyflawni'r portffolio.

Derbyniodd Bargen Ddinesig Bae Abertawe ddyfarniad cyllido pellach gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn 2024/25, gan ryddhau'r seithfed gyfran flynyddol a dynnwyd i lawr o gyllid y Fargen Ddinesig. Mae hyn wedi cynyddu'r cyfanswm a dynnwyd i lawr i £176.6 miliwn ers cychwyn y portffolio. Roedd y cyllid diweddaraf a dynnwyd i lawr gan y Fargen Ddinesig yn cynnwys grant cyflymu Llywodraeth y DU, a fydd bellach yn cael ei ddyfarnu dros gyfnod o ddeng mlynedd, yn hytrach na'r cyfnod gwreiddiol o bymtheg mlynedd.

> Mae cynnydd sylweddol wedi'i gyflawni gan Fargen Ddinesig Bae Abertawe dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae hyn yn dyst i ymrwymiad a gwaith caled yr holl bartneriaid dan sylw.
>
> Mae mentrau uchelgeisiol fel hyn yn rhan allweddol o'n gweledigaeth ar gyfer dyfodol economaidd cryfach, tecach a gwyrddach. Edrychaf ymlaen at weld y Fargen Ddinesig yn parhau i gyflawni ar gyfer busnesau a thrigolion ledled y rhanbarth.

**Dywedodd Rebecca Evans AS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio**



# Proffil Rhagolwg Buddsoddi Blynyddol

| Rhaglen / Prosiectau | Union Ffigurau Cronnol (20 Maw 2017 - 31 Maw 2021) | Union Ffigurau Bl 4 2021-22 | Union Ffigurau Bl 5 2022-23 | Union Ffigurau Bl 6 2023-24 | Union Ffigurau Bl 7 2024-25 | Amcan Bl 8 2025-26 | Amcan Bl 9 2026-27 | Amcan Bl 10 2027-28 | Amcan Bl 11 2028-29 | Amcan Bl 12 2029-30 | Amcan Bl 13 2030-31 | Amcan Bl 14 2031-32 | Amcan Bl 15 2032-33 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | (£m) | | | | | | | | | | | | | |
| Seilwaith Digidol | **0.37** | 21.81 | 36.35 | 48.43 | 2.38 | 20.17 | 10.97 | 1.44 | - | - | - | - | - | 141.93 |
| Cartrefi yn Orsafoedd Pŵer | **-** | 0.00 | 42.94 | 23.44 | 35.20 | 120.17 | 153.20 | 130.55 | - | - | - | - | - | 505.50 |
| Campysau | **0.79** | 0.21 | 0.23 | 0.88 | 1.01 | 38.55 | 57.85 | 33.36 | 0.44 | 0.45 | 0.46 | 0.47 | 0.48 | 135.18 |
| Ardal Forol Doc Penfro | **2.91** | 2.65 | 28.85 | 23.64 | 1.03 | 6.62 | 1.54 | - | 0.44 | - | - | - | - | 67.68 |
| Pentre Awel | **18.28** | 1.68 | 5.33 | 29.15 | 40.00 | 14.07 | - | 35.08 | 47.53 | - | 27.50 | - | - | 218.60 |
| Sgiliau a Thalentau | **0.02** | 0.18 | 0.23 | 2.82 | 4.44 | 7.92 | 8.47 | 5.92 | - | - | - | - | - | 30.01 |
| Cefnogi Arloesedd a Thwf Carbon Isel | **3.08** | 5.13 | 0.52 | 0.40 | 3.14 | 16.86 | 22.84 | 18.14 | 4.84 | - | - | - | - | 74.95 |
| Ardal Ddigidol Dinas Abertawe a'r Glannau | **47.88** | 19.27 | 10.90 | 44.84 | 10.92 | 19.96 | 18.96 | 1.25 | 1.00 | - | - | - | - | 174.97 |
| Yr Egin | **14.87** | 0.12 | 0.12 | 0.12 | 0.12 | 4.34 | 4.70 | 0.12 | 0.12 | 0.12 | 0.12 | 0.12 | 0.18 | 25.17 |
| **Cyfanswm** | **88.19** | **51.04** | **125.48** | **173.72** | **98.25** | **248.67** | **278.53** | **225.84** | **54.36** | **0.57** | **28.08** | **0.59** | **0.66** | **1,373.99** |

> Mae Bargen Ddinesig Bae Abertawe yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i'r economi ranbarthol ledled De-orllewin Cymru. Mae'r Fargen yn cyflawni twf economaidd, yn creu swyddi da â chyflogau da, ac yn rhoi mwy o arian ym mhocedi pobl.
>
> Mae'r Fargen wedi sicrhau bod partneriaid ledled y rhanbarth yn cydweithio i gyflawni blaenoriaethau pobl ac rwy'n edrych ymlaen at weld parhad yn y gwaith o gyflawni'r ystod eang o brosiectau a gefnogir gan Fargen Ddinesig Bae Abertawe.
>
> **Y Fonesig Nia Griffith AS**
> **Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol yn Swyddfa Cymru**

# Ymgysylltu â Busnes

Mae'r Bwrdd Strategaeth Economaidd wedi parhau i ddefnyddio eu gwybodaeth a'u harbenigedd arbenigol i gefnogi cyflawniad portffolio Bargen Ddinesig Bae Abertawe.

Mae wedi bod yn bleser cymryd rhan mewn gweithdai ar bynciau fel ymgysylltu â busnesau a chadwyni cyflenwi gyda phrosiectau Bargen Ddinesig Bae Abertawe. Rhoddodd y gweithgareddau rhyngweithiol hyn y cyfle i gwrdd â staff y prosiectau a gallu rhwydweithio â nhw.

Y flwyddyn ddiwethaf, gwelwyd cynnydd da gyda chyflawni prosiectau, ac mae hefyd wedi bod yn bleser cynrychioli'r bwrdd yn agoriad prosiect Seilwaith Ardal Forol Doc Penfro ac agoriad y Matrics Arloesi.

Cafodd aelodau'r bwrdd ymweliad addysgiadol iawn, er braidd yn wlyb a gwyntog, â Phentre Awel ym mis Rhagfyr i weld sut roedd Canolfan yn dod yn ei blaen. Mae bob amser yn anhygoel gweld y prosiectau hyn yn dod oddi ar bapur ac allan o'r ddaear, ac edrychwn ymlaen at weld Canolfan, y Matrics Arloesi ac Ardal Forol Doc Penfro yn ffynnu ac yn brysur pan fyddant ar waith yn llawn.

Mae'r Bwrdd Strategaeth Economaidd yn parhau i fod yn rhan o'r trefniadau parhaus ar gyfer y Bwrdd Sector Preifat sy'n cefnogi'r Cyd-bwyllgor Corfforaethol ac edrychwn ymlaen at weld sut y bydd y bwrdd yn cael ei ymgorffori yn y strwythur hwnnw, gan gynnwys ehangu arbenigedd o sectorau sy'n bwysig i flaenoriaethau datblygu economaidd a fydd yn cefnogi gweithio rhanbarthol ehangach a strategol. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â'r broses wrth iddi ddatblygu.

**Chris Foxall, Cadeirydd y Bwrdd Strategaeth Economaidd (BSE)**




## Buddsoddiad y sector preifat

Mae manteisio ar gyfraniadau'r sector preifat i gefnogi cyflawni rhaglenni a phrosiectau yn parhau i fod yn un o flaenoriaethau uchaf Bargen Ddinesig Bae Abertawe. Hyd yn hyn, mae dros **£132.8 miliwn** o gyfraniadau gan y sector preifat wedi'u sicrhau gyda rhagolygon yn y blynyddoedd i ddod i gyflawni ein targed portffolio o £600 miliwn+.

## Cysylltu â busnesau

Mae arddangos mewn digwyddiadau yn ystod 2024/25 wedi helpu i hyrwyddo Bargen Ddinesig Bae Abertawe i fwy na 1,000 o fusnesau ledled De Cymru. Bydd Swyddfa Rheoli'r Portffolio yn parhau i adeiladu ar weithgareddau ymgysylltu â busnesau dros y flwyddyn nesaf, gan weithio gyda thimau prosiectau a rhaglenni i nodi llwybrau ymgysylltu newydd.



## Gweithdy ymgysylltu â busnes

Un o'r gweithgareddau a gynlluniwyd yng nghynllun gweithredu cyfathrebu, marchnata ac ymgysylltu Bargen Ddinesig Bae Abertawe oedd hwyluso gweithdy ymgysylltu â busnes traws-bortffolio, er mwyn datblygu ymgysylltu â busnes mwy effeithiol a fydd yn arwain at ganlyniadau effeithiol ar gyfer y blynyddoedd i ddod. **Dysgwch fwy am y gweithdy.**

## Effaith ar y gadwyn gyflenwi

Mae prosiectau a rhaglenni'n cael effaith fawr ar gadwyni cyflenwi yn ystod cyfnodau adeiladu a gweithredu portffolio Bargen Ddinesig Bae Abertawe. Mae llawer o'r effaith hon o fudd i gwmnïau lleol a rhanbarthol yn uniongyrchol a thrwy gadwyni cyflenwi ledled Cymru. Maent hefyd wedi helpu i adeiladu ar berthnasoedd presennol a meithrin cydweithrediadau newydd sydd o fudd i'r ddwy ochr i gyflawni'r portffolio ledled De-orllewin Cymru.



## Mae'r gwaith hyd yn hyn wedi'i gyflawni drwy weithio gyda busnesau

- **35,246** o sgiliau ychwanegol a **119** o fframweithiau cwrs newydd wedi'u cyflwyno drwy'r rhaglen Sgiliau a Thalentau.
- **£44.34m** o gyllid sector preifat wedi'i sicrhau drwy'r rhaglen Seilwaith Digidol a adroddwyd yn 2024/25.
- Mae **1,078** o'r **10,300** o gartrefi fel Gorsafoedd Pŵer wedi'u hadeiladu sy'n fuddsoddiad o **£83.6m**. Mae hwn yn cynnwys tua **£16.23m** o gostau'r sector preifat ar gyfer tai newydd a chynlluniau ôl-osod. Mae **£17.4m** yn rhagor o fuddsoddiad o'r sector cyhoeddus a phreifat hefyd wedi'i gyflawni.
- **250+** o gontractau wedi'u dyfarnu i gwmnïau yng Nghymru gwerth dros **£133m**.
- **6** prosiect wedi'u cwblhau, ar y gweill ac yn cael eu monitro, gwerth **£210m**.
- **19** prosiect ar y gweill neu wedi'u cwblhau, gwerth **£761m**.
- **14** prosiect yn y broses cyn cyflawni, gwerth **£403m**.

# IN FOCUS...

## Gweithdy ymgysylltu â busnesau

Cynhaliwyd y gweithdy llwyddiannus ym mis Mehefin 2024 yn y Goleudy, Llanelli, a denodd 19 o gyfranogwyr ar draws chwe phrosiect a rhaglen Bargen Ddinesig Bae Abertawe. Arweiniodd Chris Foxall, Cadeirydd y Bwrdd Gweithredol Ewropeaidd, y gweithdy a mynychodd a chymerodd aelodau eraill o'r bwrdd ran. Roedd Jill Davies o brosiect Cymunedau Arloesi'r Economi Gylchol (CEIC), yn hwylusydd annibynnol a arweiniodd y gweithgareddau. Rhannwyd y gweithdy yn bedwar ymarfer.

Y prif amcanion oedd:

- Nodi arferion ymgysylltu â busnes effeithiol sy'n cael effaith gadarnhaol ar amcanion Bargen Ddinesig Bae Abertawe.
- Creu model o brosesau ymgysylltu â busnes.
- Cwmpasu potensial ar gyfer digwyddiadau ymgysylltu Bargen Ddinesig Bae Abertawe yn y dyfodol.

Yn yr ymarfer cyntaf trafododd y grwpiau yr hyn roedden nhw'n gobeithio ei gyflawni drwy ymgysylltu â busnesau a dyma oedd y canlyniadau:

- Datblygu rhwydweithiau, cydweithrediadau a pherthnasoedd.
- Codi ymwybyddiaeth/proffil prosiectau a rhaglenni.
- Datblygu cadwyni cyflenwi.
- Cael sylw effeithiol yn y wasg / diddordeb gan y cyfryngau a'r cyfryngau cymdeithasol.
- Hyrwyddo cyfleoedd a chefnogaeth.
- Creu model ar gyfer y broses ymgysylltu â busnesau.

Yn yr ail ymarfer trafododd y bobl oedd yn cymryd rhan â phwy maen nhw'n ceisio ymgysylltu a sut. Fe wnaethon nhw hefyd drafod pa ddulliau sy'n gweithio a pha rai nad ydyn nhw'n gweithio. Cafodd syniadau eu rhannu a dulliau eu rhoi yn nhrefn blaenoriaeth i helpu i nodi meysydd ffocws.

Roedd ymarfer tri yn weithgaredd taflu syniadau lle roedd yn rhaid i'r rhai oedd yn bresennol feddwl fel unigolyn ac yna cyfuno syniadau i weithio fel tîm. Roedd hyn wedi profi gwerth meddwl fel grŵp, wrth i lawer mwy o syniadau gael eu hystyried o'i gymharu â chyfraniadau unigol.

Yn yr ymarfer olaf gweithiodd y grwpiau gyda'i gilydd, gan drafod sut allai gwaith ymgysylltu â busnesau gael eu gwella. Roedden nhw'n ystyried posibiliadau mwy anturus nad ydyn nhw'n cael eu defnyddio eto.

Canlyniadau allweddol y gweithdy:


- Nid oes un dull sy'n addas i bawb o ran ymgysylltu.
- Byddai timau prosiect yn hoffi cael mwy o weithgareddau/gweithdai o'r math hwn.
- Roedd y cyfranogwyr yn croesawu'r cyfle i ymgysylltu â'r Bwrdd Strategaeth Economaidd.



# Marchnata a Chyfathrebu

Mae amrywiaeth o weithgareddau marchnata a chyfathrebu wedi digwydd dros y 12 mis diwethaf, gan gynnwys:

- Datblygu a lansio gwefan newydd y Fargen Ddinesig, gan weithio gyda Tinint o Lanelli. Tudalennau newydd yn cynnwys gwybodaeth am brosiectau a rhaglenni, cwrdd â'r tîm, y newyddion diweddaraf, amdanom ni, llywodraethu a llyfrgell adnoddau. **Darllenwch fwy am y wefan newydd.**
- Comisiynwyd a chynhyrchwyd animeiddiad Bargen Ddinesig. Gan gydweithio ag Eco-Works, sydd wedi'i leoli yn Abertawe, mae'r animeiddiad yn egluro sut mae cronfeydd y Fargen Ddinesig o fudd i fusnesau a phreswylwyr ar draws y rhanbarth. Mae'r cynnwys a'r dyluniad wedi'u cwblhau a'r fideos wedi'u cwblhau i'w lansio yn Ch1 2025/26. **Darllenwch fwy am yr animeiddiad.**
- Diweddaru cynllun cyfathrebu a marchnata'r portffolio, y cynllun gweithredu, y protocolau a'r canllawiau, a'r cynlluniwr digwyddiadau.
- **229** o gyfeiriadau yn y wasg leol a chenedlaethol, gan gynnwys teitlau ar-lein a phrintiedig, ar draws pob prosiect a rhaglen. Roedd hyn yn cynnwys **110** o ddatganiadau gwahanol i'r wasg mewn **67** o deitlau cyfryngau gwahanol.
- **18,098** o argraffiadau mewn postiadau Facebook, **1,018** o ddilynwyr, **120** o bostiadau cyhoeddedig a **262** o gliciadau ar ddolenni.
- **12,817** o argraffiadau post, **1,479** o ddilynwyr, **120** o bostiadau cyhoeddedig a **298** o gliciadau ar ddolenni.
- Ymweliadau gweinidogol gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru â'r prosiectau canlynol: Ardal Forol Doc Penfro, y Matrics Arloesi, 71/72 Ffordd y Brenin, Cartrefi yn Orsafoedd Pŵer a SWITCH.
- Lle i fynychu ac arddangos mewn 21 o ddigwyddiadau, gan gynnwys Sioe Fusnes Cymru, Sioe Adeiladu Cymru, Cynhadledd Canol Dinas 4theRegion, Cynhadledd Ynni Môr Cymru a Chynhadledd yr Economi Werdd, a digwyddiad gyrfaoedd yng Ngholeg Gŵyr, Abertawe.
- Gweithio mewn partneriaeth â chysylltiadau cyfathrebu allweddol mewn sefydliadau partner ac yn y Bargeinion Dinesig a Thwf eraill yng Nghymru.



# IN FOCUS...

## Gweithdy marchnata

Cynhaliwyd gweithdy marchnata a chyfathrebu ym mis Hydref 2024 yn y Goleudy, Llanelli, a denodd 12 o gyfranogwyr ar draws wyth prosiect a rhaglen Bargen Ddinesig Bae Abertawe. Hwyluswyd y gweithdy, a oedd yn cynnwys tri phrif ymarfer, gan Jon Burnes a Peter Austin o Swyddfa Rheoli Portffolio'r Fargen Ddinesig.

Y prif amcanion oedd:

- Codi pwysigrwydd cyfleu negeseuon cyffredinol Bargen Ddinesig Bae Abertawe.
- Deall yr arferion/dulliau cyfredol a ddefnyddir a rhannu syniadau.
- Amlinellu'r cerrig milltir allweddol ar gyfer y 12 mis nesaf a phennu'r negeseuon allweddol sy'n deillio o'r cerrig milltir.
- Llunio cynllun gweithredu cyfathrebu, marchnata ac ymgysylltu'r portffolio, gan gynnwys negeseuon allweddol y portffolio.
- Rhoi cyfle i gysylltiadau marchnata a chyfathrebu ryngweithio a meithrin perthnasoedd â'i gilydd a datblygu cymuned ymarfer i wneud y mwyaf o gyfleoedd ar draws y portffolio.

Yn yr ymarfer cyntaf, trafododd y grwpiau'r gwahanol randdeiliaid y buont yn cyfathrebu â nhw a pha ddulliau a ddefnyddiwyd ganddynt. Diweddarwyd y matrics pŵer a dylanwad a'i gynnwys yn y cynllun gweithredu cyfathrebu, marchnata ac ymgysylltu.

Yn yr ail ymarfer, trafododd y cyfranogwyr gyda'i gilydd y negeseuon allweddol y byddai eu prosiectau a'u rhaglenni'n eu cyfleu dros y chwe mis nesaf.

Yn yr ymarfer olaf, edrychodd y grwpiau ar negeseuon allweddol eu prosiect a'u rhaglen eu hunain a llunio negeseuon allweddol ar gyfer portffolio Bargen Ddinesig Bae Abertawe i'w defnyddio yn ystod y flwyddyn nesaf.

Cafodd y gweithdy groeso cynnes iawn gydag:

- **86%** yn fodlon ar y gweithdy yn gyffredinol.
- **86%** yn fodlon ar y pynciau a drafodwyd.
- **86%** yn fodlon ar y gweithgareddau grŵp
- Roedd **71%** eisiau mwy o ddigwyddiadau o'r math hwn.



> Roeddwn i'n croesawu clywed am ba weithgarwch marchnata sydd gan y prosiectau eraill ar y gweill a sut maen nhw'n mynd ati. Mwynheais y cyfle i rwydweithio gyda'r gwahanol dimau hefyd. Roeddwn i'n teimlo bod y gweithdy yn ddefnyddiol ac yn gynhyrchiol iawn.
>
> **Dywedodd cyfranogwr**

# IN FOCUS...

## Uwchraddio'r wefan





Sganiwch os gwelwch yn dda

Roedd gwefan portffolio **Bargen Ddinesig Bae Abertawe** wedi dyddio ac ar fersiwn heb ei chefnogi o'i system rheoli cynnwys. Gan weithio gyda'r cyflenwr Tinint o Lanelli, mae'r wefan wedi'i hailadeiladu ac mae'n fwy addysgiadol ac yn haws ei llywio, ac mae ganddi olwg a theimlad mwy modern.

Gan gydweithio'n agos â rhaglen a thimau prosiect Bargen Ddinesig Bae Abertawe, mae'r wefan newydd bellach yn cynnwys gwybodaeth fanylach am y Fargen Ddinesig a'i phrosiectau a'i rhaglenni na'r wefan flaenorol. Mae hyn yn cynnwys adrannau gwell ar gyfer:

- Amdanom ni:
    - Cwrdd â'r swyddfa portffolio a chwrdd â'r timau prosiect.
    - Disgrifiad gwell o lywodraethu'r portffolio, gyda dolenni i gofnodion y cyd-bwyllgor a chyd-graffu.
    - Tair thema Bargen Ddinesig Bae Abertawe a sut mae'r prosiectau a'r rhaglenni'n cyfrannu at bob un.
    - Gwobrau, yn dathlu cyflawniadau timau prosiect y Fargen Ddinesig. **Darllen mwy.**
- Prosiectau – llywio haws i dudalennau prosiect, naratif a delweddau cyfredol, tudalennau ar wahân ar lefel prosiect, a lluniau aelodau'r tîm.
- Adnoddau – adran newydd sy'n rhoi mynediad hawdd i ddogfennau fel yr adroddiadau blynyddol, datganiadau cyfrifon a strategaethau perthnasol.
- Astudiaethau achos – adran newydd yn cynnwys astudiaethau achos o ddiddordeb, gan gynnwys prentisiaethau, digwyddiadau, ac ati.
- Cyfleoedd – adran newydd yn cyfeirio at gyfleoedd rhentu, cyfleoedd i gyflenwyr a digwyddiadau.
- Cysylltu â ni – adran newydd i bartïon â diddordeb gysylltu â Swyddfa Rheoli'r Portffolio yn uniongyrchol o'r wefan.




Caiff y wefan ei diweddaru'n rheolaidd gydag erthyglau newyddion a chynnwys arall wrth iddo ddod ar gael. **Darllen mwy.**

# IN FOCUS...

## Animeiddio

Un o'r cwestiynau mwyaf cyffredin a ofynnir mewn digwyddiadau ac wrth rwydweithio yw "Sut mae'r Fargen Ddinesig o fudd i mi?"

Gan weithio gyda'r cyflenwr Echo Works o Abertawe, cynhyrchodd Swyddfa Rheoli'r Portffolio animeiddiad byr, a eglurodd y Fargen Ddinesig a sut mae'r £1.3 biliwn yn llifo i'r rhanbarth, a sut mae'n fuddiol i bobl – preswylwyr a busnesau.

Gan ddechrau gyda'r cwestiwn "Sut mae'n fuddiol i mi?", mae'r animeiddiad yn rhedeg trwy adrannau sy'n disgrifio beth yw'r Fargen Ddinesig, pwy yw'r partneriaid, a sut mae'r cyllid yn llifo o'r llywodraethau i'r rhanbarth ac ymlaen i'r gwaith adeiladu a gweithredu. Mae hefyd yn disgrifio manteision ehangach addysg, sgiliau, gwelliannau mewn cysylltedd digidol, a mentrau gwyrdd/llesiant.

Mae'r animeiddiad yn gorffen gyda'r is-bennawd:


**"Creu ein dyfodol gyda'n gilydd"**

Mae'r animeiddiad wedi'i gynhyrchu mewn pedwar fformat, gan ganiatáu iddo gael ei ddefnyddio ar wefannau, mewn digwyddiadau ac ati.

1. Troslais Saesneg
2. Troslais Cymraeg
3. Isdeitlau Saesneg
4. Isdeitlau Cymraeg

Sganiwch os gwelwch yn dda







# Digwyddiadau

Mae digwyddiadau'n chwarae rhan bwysig wrth hyrwyddo'r Fargen Ddinesig i fynychwyr yn ogystal ag arddangoswyr. Mae mynychu digwyddiadau wedi arwain at wneud cysylltiadau newydd, wedi galluogi meithrin perthnasoedd a chydweithio, ac wedi codi ymwybyddiaeth o weithgareddau portffolio Bargen Ddinesig Bae Abertawe i ystod eang o gynulleidfaoedd.

Mae Swyddfa Rheoli'r Portffolio wedi trefnu neu arddangos mewn 21 o ddigwyddiadau drwy gydol y flwyddyn, gan gynnwys:

| Digwyddiad | Dyddiad | Lleoliad |
|---|---|---|
| **Digwyddiad Cwrdd â'r Fargen Ddinesig yng Nghastell-nedd Port Talbot** | Ebrill 2024 | Orendy Parc Margam, Port Talbot |
| **Digwyddiad briffio Fframwaith Contractwyr Rhanbarthol De-orllewin Cymru** | Ebrill 2024 | Parc y Scarlets, Llanelli |
| **4theRegion** | Mai 2024 | Arberth, Sir Benfro |
| **Sioe Fusnes Cymru** | Mai 2024 | Stadiwm Dinas Caerdydd, Caerdydd |
| **Sioe Adeiladu Cymru** | Mai 2024 | Stadiwm Dinas Caerdydd, Caerdydd |
| **Diwrnod Agored i Ddiwydiant Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant** | Mai 2024 | Campws SA1, Abertawe |
| **Cynhadledd Cadw Contractau'n Lleol y Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol** | Mai 2024 | Parc Y Scarlets, Llanelli |
| **Digwyddiad Seilwaith Digidol** | Mai 2024 | Stadiwm Swansea.com, Abertawe |
| **Gweithdy ymgysylltu â busnesau Bargen Ddinesig Bae Abertawe** | Meh 2024 | Y Goleudy, Llanelli |
| **Sioe Fusnes Cymru** | Gorff 2024 | Parc Y Scarlets, Llanelli |
| **4theRegion Sir Gaerfyrddin** | Gorff 2024 | Yr Egin, Caerfyrddin |
| **Digwyddiad cadwyn gyflenwi Expo Busnes** | Medi 2024 | Arena Abertawe, Abertawe |
| **4theRegion Castell-nedd Port Talbot** | Medi 2024 | Orendy Parc Margam, Port Talbot |
| **Gweithdy marchnata a chyfathrebu Bargen Ddinesig Bae Abertawe** | Hydref 2024 | Y Goleudy, Llanelli |
| **Sioe Fusnes Cymru** | Hydref 2024 | Stadiwm Swansea.com, Abertawe |
| **Sioe Adeiladu Cymru** | Hydref 2024 | Stadiwm Swansea.com, Abertawe |
| **Cynhadledd yr Economi Werdd 4theRegion** | Tach 2024 | Arena Abertawe, Abertawe |
| **Digwyddiad recriwtio prentisiaid Coleg Gŵyr** | Chwe 2025 | Campws Ty Coch, Abertawe |
| **Digwyddiad ymgysylltu â rhanddeiliaid Cartrefi fel Gorsafoedd Pŵer** | Chwe 2025 | Gerddi Botaneg, Caerfyrddin |
| **Digwyddiad lansio'r Rhwydwaith Cenedlaethol ar gyfer Arloesedd mewn Chwaraeon ac Iechyd** | Chwe 2025 | Prifysgol Abertawe, Abertawe |
| **Cynhadledd Canol Dinas Abertawe 4theRegion** | Maw 2025 | Arena Cymdeithas Adeiladu Abertawe, Abertawe |

# Sicrwydd ac Archwilio

Mae portffolio, rhaglenni a phrosiectau Bargen Ddinesig Bae Abertawe yn destun Adolygiadau Porth Swyddfa Masnach y Llywodraeth, a hwylusir gan Hwb Sicrwydd Integredig Llywodraeth Cymru. Mae'r adolygiadau'n rhoi sicrwydd trydydd parti o gynnydd llwyddiannus a chyflawniad cyffredinol y portffolio a phrosiectau a rhaglenni cysylltiedig.

Cynhaliodd portffolio Bargen Ddinesig Bae Abertawe ei adolygiad strategol blaenorol ym mis Gorffennaf 2023. Ni threfnwyd adolygiad portffolio ar gyfer 2024/25 oherwydd natur lem y trefniadau llywodraethu sydd ar waith gan Fargen Ddinesig Bae Abertawe. Mae'r adolygiad nesaf wedi'i gynllunio ar gyfer mis Gorffennaf 2025.

Mae amserlen o adolygiadau sydd ar ddod wedi'i datblygu ar gyfer y 12 mis nesaf. Mae cyfarfodydd rheolaidd o Banel Sicrwydd Bargen Ddinesig Bae Abertawe wedi digwydd drwy gydol y flwyddyn, gan ddarparu goruchwyliaeth a mewnbwn i'r trefniadau sicrwydd ar draws y portffolio.

Mae'r tabl isod yn dangos y statws sicrwydd cyfredol ar draws y portffolio ynghyd â'r sgôr Asesiad Hyder Cyflenwi a'r dyddiad amcangyfrifedig ar gyfer yr adolygiad sicrwydd nesaf.

| Portffolio / Rhaglen / Prosiect | Cam | Graddfa AHC | Dyddiad yr adolygiad nesaf |
|---|---|---|---|
| Portffolio | Porth 0 | | Gorffennaf 2025 |
| Seilwaith Digidol | Porth 0 | | Hydref 2025 |
| Pentre Awel | PAR / Porth 3 | | Hydref 2025 |
| Cefnogi Arloesedd a Thwf Carbon Isel | PAR | | Medi/Hydref 2025 |
| Cartrefi yn Orsafoedd Pŵer | PAR | | Medi/Hydref 2025 |
| Campysau | PAR | | I'w gadarnhau 2025 |
| Prosiect Ardal Forol Doc Penfro | Porth 0 | | 2026 |
| Glannau Abertawe a'r Ardal Ddigidol | PAR | | 2026 |
| Sgiliau a Thalentau | Porth 0 | | 2026 |
| Cyfnod 2 Yr Egin | Porth 1/2 | | I'w gadarnhau |

## Argymhellion adolygiad Porth 0 o'r portffolio

Dychwelodd adolygiad sicrwydd porth 2023/24 ar gyfer y portffolio drydydd sgôr oren/gwyrdd yn olynol gyda phedwar argymhelliad bach, ac mae pob un ohonynt wedi cael eu gweithredu. Roedd yr argymhellion yn cwmpasu cyfathrebu ynghylch bwriad strategol, rheoli buddion, aliniad llywodraethu â'r Cyd-bwyllgor Corfforaethol, a gwneud y mwyaf o werth o ddibyniaethau a chyfleoedd, yn enwedig mewn perthynas â'r sector preifat.

## Archwiliad


Cynhaliwyd archwiliad mewnol ar gyfer Bargen Ddinesig Bae Abertawe gan Gyngor Sir Penfro ar gyfer 2024/25. Dychwelodd yr archwiliad sgôr sylweddol (gwyrdd) gyda dau argymhelliad yn ymwneud â blaengynllunio ariannol a chytundebau lefel gwasanaeth.

Cynhaliwyd adolygiad sicrwydd ac asesu risg Archwilio Cymru ar gyfer y cyfnod 2022/23. Canfu'r adolygiad fod trefniadau rheoli portffolio Bargen Ddinesig Bae Abertawe yn cefnogi cipolwg clir ar gynnydd y portffolio. Nodwyd 16 o feysydd i'w datrys er mwyn adolygu'r trefniadau presennol yn ffurfiol i sicrhau eu bod yn addas ar gyfer anghenion y dyfodol. Paratowyd cynllun gweithredu i adrodd ar gynnydd drwy lywodraethu Bargen Ddinesig Bae Abertawe, a oedd yn cynnwys cyd-fynd â'r cyd-bwyllgor corfforedig, gwireddu/gwerthuso buddion, trefniadau rheoli'r portffolio, pwrpas y Bwrdd Strategaeth Economaidd, rôl craffu rhanbarthol, gwersi a ddysgwyd, a chyfleoedd rhanbarthol. Mae pump o'r meysydd wedi'u cwblhau, mae pump ar y gweill, mae pedwar yn mynd rhagddynt ac yn y broses o gael eu datblygu, ac mae dau heb eu gweithredu eto. Mae adolygiad nesaf Archwilio Cymru wedi'i drefnu ar gyfer mis Mehefin 2025.

# Risgiau a Materion Portffolio

Mae Swyddfa'r Rheoli Portffolio yn monitro ac yn adrodd ar risgiau a materion portffolio i fyrddau llywodraethu bob chwarter, gan roi'r wybodaeth ddiweddaraf am statws a chamau lliniaru.


Gostyngodd nifer y risgiau portffolio o 25 i 15 o fewn y flwyddyn heb unrhyw risgiau newydd wedi'u nodi. Mae'r nifer wedi lleihau oherwydd bod risgiau'n cael eu cau neu eu dyrchafu i statws mater.







| Risgiau Coch | Mesurau lliniaru |
|---|---|
| Risg y bydd costau adeiladu cynyddol yn effeithio ar gyllidebau a osodwyd mewn achosion busnes rhaglenni/prosiectau | Mae Swyddfa Rheoli'r Portffolio yn gweithio'n agos gyda thimau rhaglenni/prosiectau i nodi effaith bosibl.Mae asesiad effaith adeiladu chwarterol wedi'i ddarparu i fyrddau llywodraethu. Mae prosiectau'n adrodd ar dri mesur lliniaru allweddol: i) sicrhau cyllid ychwanegol, ii) ailedrych ar y briff dylunio, iii) cynnal trafodaethau contractiol manwl yn ystod y broses gaffael. |
| Diweddariad Llywodraeth Cymru (LlC) 2021 o Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 15 ar y risg i ddatblygiadau o lifogydd ac erydiad arfordirol a mapiau cynllunio llifogydd cysylltiedig | Map llifogydd ar gyfer cynllunio wedi'i fewnosod. Mae Llywodraeth Cymru yn monitro effeithiolrwydd Polisi Cynllunio Cymru a TAN 15 drwy gyfarwyddyd hysbysu a dangosyddion datblygu cynaliadwy. Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru i ddeall cyfanrwydd amddiffynfeydd rhag llifogydd presennol. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl rhoi cyngor i Ysgrifennydd y Cabinet yn fuan gyda fersiwn wedi'i hailddrafftio o TAN 15. |
| Gallu rhaglenni/prosiectau i gyflawni'r holl allbynnau a chanlyniadau o fewn yr achosion busnes | Mae gan raglenni/prosiectau dempledi gwireddu buddion wedi'u llenwi i'w hymgorffori yn adroddiadau llywodraethu Bargen Ddinesig Bae Abertawe. Mae'r cyd-bwyllgor wedi cymeradwyo fframwaith gwerthuso. Adolygiad proffil gwerthuso wedi'i gwblhau yn Ch4 2024/25. Mae'r asesiad o'r effaith adeiladu wedi'i addasu i asesu risg hyd at lefel y prosiect er mwyn rhoi hyder y bydd allbynnau seilwaith ffisegol yn cael eu cyflawni ar draws y portffolio. |

Cynyddodd cyfanswm nifer y materion portffolio o saith i wyth o fewn y flwyddyn. Er bod rhai materion wedi'u cau o'r flwyddyn a ddaeth i ben yn Chwarter 4 2023/24, mae'r nifer cyffredinol wedi cynyddu wrth i rai o'r risgiau uno â materion cyfredol neu symud o fod yn risg i fater.






| Materion Coch | Mesurau lliniaru |
|---|---|
| Costau adeiladu cynyddol – mae wedi dod yn wybodaeth gyffredin bod y diwydiant adeiladu yn profi costau a phroblemau cynyddol mewn perthynas ag argaeledd adnoddau | Datblygodd Swyddfa Rheoli Portffolio Bargen Ddinesig Bae Abertawe asesiad o'r effaith adeiladu yn 2022. Mae'r ddogfen hon yn gofyn am wybodaeth gan yr arweinwyr prosiect i ddarparu asesiad cyfredol o'r effaith debygol ar gyflawni prosiectau o faterion sy'n effeithio ar y diwydiant adeiladu.<br>Mae fersiwn newydd o'r asesiad o'r effaith adeiladu wedi'i datblygu ar gyfer Ch4 2024/25. Gan ganolbwyntio ar yr 17 prosiect adeiladu sy'n ddibynnol ar achos busnes sy'n weddill, mae'r ffurflenni'n dangos un â statws gwyrdd / chwe â statws oren a dau â statws goch gyda dau i'w cadarnhau. |
| Amrywiad yn ystod y flwyddyn | Mae adolygiad o gydrannau ac amserlenni buddsoddi wedi'i gwblhau ar y cyd ag arweinwyr rhaglenni/prosiectau. Mae'r adolygiadau hyn wedi arwain at ragolygon buddsoddi mwy realistig a fydd yn caniatáu adolygiad a chraffu chwarterol a blynyddol i sicrhau cynnydd parhaus tuag at y proffil hwn. Papur safbwynt amrywiant wedi'i ddrafftio a'i gyflwyno trwy'r byrddau llywodraethu mis Mai 2025. |
| Amrywiaeth wrth gyflwyno rhaglenni/prosiectau yn erbyn cerrig milltir allweddol | Oherwydd nifer o ffactorau, bu rhywfaint o amrywiant yn y buddsoddiad gwreiddiol a ragwelwyd. Mae'n debyg y bydd rhywfaint o oedi wrth gyflawni ar draws y portffolio am amrywiol resymau, gan gynnwys cyfyngiadau COVID, gohiriadau wrth gyflwyno a chymeradwyo achosion busnes, a ffactorau eraill fel argaeledd adnoddau a deunyddiau, a allai fod angen eu monitro a'u lliniaru wrth i elfennau seilwaith symud ymhellach i'r broses gyflenwi. Mae buddion lefel y portffolio bellach wedi'u rhagweld ar gyfer gweddill oes y portffolio. Fodd bynnag, bydd angen adolygu'n rheolaidd i sicrhau nad yw risgiau'n dod yn faterion a bod mesurau lliniaru priodol yn cael eu mabwysiadu gan y rhaglenni a'r prosiectau i gyflawni ymrwymiadau cyflawni'r portffolio ehangach. |

# Gwersi a Ddysgwyd

Mae Swyddfa Rheoli'r Portffolio wedi cynnal log gwersi a ddysgwyd i rannu arfer gorau gyda phartneriaid rhanbarthol ers 2020, gan fod y gwaith cyflawni yn darparu llawer o brofiadau a rhyngweithiadau gwerthfawr ar draws y rhanbarth. Mae Swyddfa Rheoli'r Portffolio hefyd yn rhannu profiadau ac arfer gorau gyda Bargeinion Dinesig a Thwf eraill ledled Cymru, Gogledd Iwerddon a'r Alban.

Rhannodd rhanddeiliaid Bargen Ddinesig Bae Abertawe 16 o wersi a ddysgwyd ar gyfer 2024/25 yn cwmpasu llywodraethu, adrodd, cydweithio, caffael, cyllid, rhwydweithio, cyfathrebu, adnoddau a buddion.

**Croesewir adborth bob amser ar sut mae Bargen Ddinesig Bae Abertawe yn perfformio ac yn rhyngweithio. Cyfeiriad e-bost: BDBA@sirgar.gov.uk i rannu eich barn.**

## Mae'r gwersi ac argymhellion allweddol wedi'u crynhoi isod:

| Sefyllfa | Argymhelliad |
|---|---|
| Mae'r templed adrodd chwarterol bellach wedi'i symleiddio gyda chyfarwyddiadau clir ar sut i'w gwblhau yn ei le; fodd bynnag, mae anghysondebau ynghylch ffigurau buddsoddi oherwydd amseriad y ceisiadau. | Ffigurau bellach wedi'u cymryd o ffurflenni ariannol. Cyfarfodydd chwarterol ar waith gyda'r Rheolwr Cyllid a'r Uwch-swyddog Cymorth Portffolio i sicrhau bod y ffigurau'n gywir ac yn gyson mewn adroddiadau. |
| Oherwydd strwythur unigryw'r diwydiant telathrebu, mae angen gwiriadau diwydrwydd dyladwy ychwanegol yn ystod gwaith caffael. Gall hyn arwain at oedi hir wrth gontractio gyda'r cynigydd a ddewiswyd. | Sicrhau digon o amser yn ystod y cyfnod caffael a chontractio i ganiatáu ar gyfer sefyllfaoedd o'r fath. |
| Defnydd cadarnhaol o ddelweddau a gynhyrchir gan gyfrifiadur (CGI), cynlluniau llawr a lluniau mewnol i godi ymwybyddiaeth o ofod busnes cyn agor a sicrhau swyddfeydd ymlaen llaw. | Parhau i ddefnyddio CGI i hyrwyddo seilwaith. |
| Cafwyd adborth cadarnhaol i gynnal sesiynau galw heibio lleol i hyrwyddo prosiectau yn y gymuned. Gweithiodd cynnal sesiynau ar wahân yn y bore a'r prynhawn yn dda. | Defnyddio sesiynau galw heibio i ymgysylltu â'r gymuned lle bo modd, gan nodi bod sesiynau bore/prynhawn yn gweithio'n dda. |
| Pwysigrwydd cael dyddiad cau o fewn y cytundeb les i liniaru effaith y tenant ar yr oedi i'r rhaglen adeiladu. | Ystyried ddefnyddio dyddiad cau os oes unrhyw ansicrwydd ynghylch hyd y cyfnod adeiladu. Mae hyn yn lleihau'r risg y bydd tenantiaid yn 'gadael' oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i reolaeth y landlord. |
| Defnyddio 'hybiau cyflogaeth' ar y safle i helpu i recriwtio o grwpiau anodd eu cyrraedd: NEETS (pobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant), yn economaidd anweithgar, yn ddi-waith yn y tymor hir), a chyflawni nodau recriwtio a hyfforddi wedi'u targedu. | Gweithio gyda chontractwyr i hyrwyddo arfer gorau a ffyrdd arloesol o estyn allan at grwpiau llai hygyrch ac anodd eu cyrraedd. |
| Mae angen adnoddau a chyllideb ychwanegol i gyflawni asesiadau economaidd prosiectau/rhaglenni unigol. | Prosiectau i sicrhau bod digon o adnoddau a chyllideb ar waith i gynnal asesiadau economaidd. |

# I ddarganfod mwy a chwrdd â'r tîm...



**Ymholiadau cyffredinol**
SBCD@sirgar.gov.uk

**Seilwaith Digidol**
digital@swanseabaycitydeal.wales

**Cartref yn Orsafoedd Pŵer**
Oonagh Gavigan – O.Gavigan@npt.gov.uk

**Sgiliau a Thalent**
Sam Cutlan-Dillon – scutlan-dillon@sirgar.gov.uk

**Ardal Ddigidol Dinas Abertawe a'r Glannau**
Lee Richards – Lee.Richards@abertawe.gov.uk

**Arena Abertawe**
Lisa Mart – LisaMart@theambassador.com

**Yr Egin, Matrics Arloesi a Canolfan Arloesi**
Geraint Flowers – G.Flowers@uwtsd.ac.uk

**Canolfan S4C**
Carys Ifan – Carys.Ifan@uwtsd.ac.uk

**Pentre Awel**
Alex Williams – alexwilliams@carmarthenshire.gov.uk

**Campysau**
Clare Henson – c.m.henson@swansea.ac.uk

**Cefnogi Arloesi a Thwf Carbon Isel**
Lisa Willis – l.willis@npt.gov.uk

**Canolfan Ragoriaeth Peirianneg Ynni Morol (CRPYM)**
Paul Ellsmore – Paul.Ellsmore@ore.catapult.org.uk

**Ardal Profi Ynni'r Môr (APYM)**
Tom Hill – Tom.Hill@marineenergywales.co.uk

**Parth Arddangos Sir Benfro**
Tim James – tim.james@celticseapower.co.uk

**Porthladd Aberdaugleddau**
Matt Jones – Matt.Jones@mhpa.co.uk

@SBCityDeal

BDBA@sirgar.gov.uk

bargenddinesigbaeabertawe.cymru

Bargen Ddinesig
BAE ABERTAWE
SWANSEA BAY
City Deal